
# DOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL




## Ysgolion Dalgylch Bangor

### 10 Ebrill – 22 Mai 2018

# Cynnwys


| Adran | Disgrifiad | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair | 3 |
| 1 | Cyflwyniad | 4 |
| 1.1 | Y cynnig sy'n destun i'r ymgynghoriad statudol hwn | 4 |
| 1.2 | Y weledigaeth ar gyfer y dalgylch | 4 |
| 2 | Yr Ymgynghoriad | 5 |
| 3 | Gwybodaeth Gefndirol | 8 |
| 3.1 | Sut y datblygwyd y cynnig | 8 |
| 3.2 | Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Bangor | 9 |
| 3.3 | Buddsoddiad Cyfalaf | 10 |
| 4 | Trefniadau Presennol yn Nalgylch Bangor | 11 |
| 4.1 | Ysgol y Garnedd | 11 |
| 4.2 | Ysgol Babanod Coedmawr/Glanadda | 11 |
| 4.3 | Ysgol Faenol | 11 |
| 4.4 | Ysgol Cae Top | 11 |
| 4.5 | Ysgol Ein Harglwyddes | 12 |
| 4.6 | Ysgol Glancegin | 12 |
| 4.7 | Ysgol Llandygai | 12 |
| 4.8 | Ysgol Hirael | 12 |
| 4.9 | Categorïau Ysgolion | 12 |
| 5 | Achos dros newid | 14 |
| 5.1 | Cefndir | 14 |
| 5.2 | Nifer Disgyblion a Rhagamcanion | 15 |
| 5.3 | Gwerthuso Gwahanol Opsiynau | 16 |
| 5.4 | Rhestr hir o opsiynau posib | 17 |
| 5.5 | Gwerthusiad Opsiynau | 18 |
| 6 | Y Cynnig | 19 |
| 6.1 | Ansawdd yr addysg | 20 |
| 6.2 | Crynodeb o effaith y cynnig presennol ar wella safonau addysgol | 22 |
| 6.3 | Capasiti'r Ysgol | 22 |
| 6.4 | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | 23 |
| 6.5 | Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau | 24 |
| 6.6 | Manylion y Cynnig | 26 |
| 6.7 | Trefniadau Cludiant Arfaethedig | 28 |
| 6.8 | Llefydd Gweigion | 29 |
| 6.9 | Adnoddau Ariannol | 30 |
| 6.10 | Yr Iaith Gymraeg | 30 |
| 6.11 | Y Gymuned | 31 |
| 6.12 | Llywodraethu a Materion Staffio | 32 |
| 6.13 | Effaith ar Gydraddoldeb | 33 |
| 6.14 | Manteision Tebygol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc | 33 |
| 6.15 | Trefniadau Mynediad Arfaethedig | 34 |
| 6.16 | Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol | 34 |
| 6.17 | Ôl ddefnydd y safleoedd | 34 |
| 6.18 | Risgiau Posibl | 34 |
| 6.19 | Categori Cyfreithiol yn ymwneud ar cynnig | 35 |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Crynodeb o'r cynnig | 36 |
| 8 | Egluro'r broses statudol | 36 |
| 9 | Amserlen Arfaethedig | 38 |


## Atodiad 1 – Gwerthusiad Opsiynau

## Atodiad 2 – Ffurflen Ymateb

# Rhagair

Mewn cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd ar y **13 Mawrth 2018,** penderfynodd y Cabinet i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Bangor, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Bydd yr ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal rhwng **10 Ebrill a 22 Mai, 2018,** ac mae'n seiliedig ar gynnig i gau ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.

Byddai Cyngor Gwynedd yn hoffi i chi gyflwyno eich barn fel y gellir ei hystyried cyn gwneud penderfyniad. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cyflwyno adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd.

Mae copi o'r ddogfen hon, a phapurau cefndirol eraill, ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg yn ogystal ag yn eich ysgol a'ch llyfrgell leol. Os ydych angen rhagor o gopïau mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddfa Moderneiddio Addysg drwy ffonio (01286) 679 247 neu drwy e-bostio moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**SYLWER** – dylid anfon unrhyw sylwadau ar y ddogfen ymgynghori statudol at y Swyddfa Moderneiddio Addysg erbyn **13:00 ar ddydd Mawrth, 22 Mai 2018**. Cewch hyd i'r manylion cyswllt perthnasol ar ddiwedd y ddogfen hon.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,

Garem Jackson
**Pennaeth Addysg**

# 1. Cyflwyniad


Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried ad-drefnu ysgolion yn nalgylch Bangor.

Mae 11 ysgol yn rhan o'r dalgylch Bangor; dwy Uwchradd (Ysgol Uwchradd Tryfan ac Friars) a 9 ysgol gynradd (Ysgol Y Garnedd, Hirael, Y Faenol, Llandygai, Cae Top, Glancegin, Babanod Coedmawr, Glanadda, Ein Harglwyddes). Mae'r ysgolion wedi eu lleoli oddi fewn ac o amgylch Dinas Bangor. Mae dalgylch Ysgol Y Garnedd ac Ysgol Gatholig Ein Harglwyddes yn cynnwys Bangor cyfan. Adeiladwyd ysgol newydd ar gyfer Ysgol Cae Top ag agorwyd ym Medi 2009 yn dilyn buddsoddiad o £4miliwn. Mae Ysgol Llandygai yn derbyn plant o ddau ddalgylch, sef Bangor a Bethesda.

Mae'r Cyngor Gwynedd wedi ystyried sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd a gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr y ddinas. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses ymgynghori, y ffactorau y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn berthnasol a'r broses o wneud penderfyniadau.

## 1.1 Y Cynnig sy'n Destun i'r Ymgynghoriad Statudol hwn yw

Cau ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr ar y 31 Awst 2020, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni); a chynyddu capasiti Ysgol y Garnedd i 420.




## 1.2 Y Weledigaeth ar Gyfer y Dalgylch

Mae'r ymgynghoriad statudol yn ymwneud ag ysgolion y Garnedd, Babanod Coedmawr a Glanadda yn unig. Fodd bynnag, mae'r ad-drefnu sy'n digwydd yn Ninas Bangor yn rhan o weledigaeth hir dymor Cyngor Gwynedd ar gyfer y Dalgylch.

Ymestyn Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coed Mawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.

Yn ychwanegol i'r cynnig ymgynghori ar opsiwn i gau Ysgolion Babanod Coedmawr a Glanadda a chynyddu maint Ysgol y Garnedd, bydd gwaith yn parhau gyda'r elfennau isod.

- **Ysgol Y Faenol:** Fel rhan o'r opsiwn ffafrieidig, mae'r angen i gynyddu capasiti Ysgol y Faenol wedi ei adnabod i gyfarch y posibilrwydd o gynnydd yn nifer o ddisgyblion yn deillio o ffactorau fel datblygiadau tai ym Mhenrhosgarnedd, a chapasiti presennol yr ysgol. Y cam nesaf yn y broses bydd dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Addysg i gynnal rhag ymgynghoriad gyda'r ymddiriedolwyr a/neu'r corff crefyddol priodol yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

- **Ysgol Glancegin:** Fel rhan o Fand A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, llwyddodd y Cyngor i ddenu £5.11m tuag at adeiladu ysgol newydd ar gyfer 240 o ddisgyblion (yn cynnwys 30 lle meithrin) ym Maesgeirchen yn lle'r Ysgol Glancegin presennol. Pryd gyflwynwyd y cais gwreiddiol, roedd niferoedd llefydd gweigion sylweddol yn yr ysgol, gyda nifer o blant yn mynychu ysgolion eraill yn y dalgylch. Os bydd y cynnydd yn y niferoedd yn parhau, mae posibilrwydd y bydd angen ystyried gwrthod mynediad i rai o blant y dalgylch. Er mwyn datrys y sefyllfa, bydd angen asesu'r angen i gynnwys dosbarth ychwanegol ar gyfer 30 o blant yn yr ysgol. Mae'r cynllun gwreiddiol ar gyfer yr adeilad newydd yn galluogi hyblygrwydd i addasu rhai ardaloedd rhag ofn y byddai twf yn nifer o blant y dalgylch yn y dyfodol.

- **Ysgol Hirael:** Mae rhannau o'r adeilad mewn cyflwr gwael, gyda'r adeilad to fflat yng nghefn yr adeilad angen sylw. Bydd asesiad pellach yn cael ei wneud ar yr opsiynau ar gyfer gwelliannau.

- **Ysgol Ein Harglwyddes:** Mae cyflwr adeiladau'r ysgol hon wedi ei adnabod yn ystod trafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch (PAD) fel elfen bydd angen sylw yn y dyfodol. Ar gyfer ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA), mae trefniadau ariannu yn golygu cyfradd ymyrraeth o hyd at 85% gan Lywodraeth Cymru a 15% gan yr Esgobaeth briodol. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r Esgobaeth i gael dealltwriaeth o'r posibiliadau o wella cyflwr ysgol oddi mewn ei chynlluniau cyfalaf strategol.

## 2. Yr Ymgynghoriad

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal rhwng y **10 Ebrill a 22 Mai, 2018.**

**Dim ond ag ysgolion Y Garnedd, Babanod Coedmawr a Glanadda y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud, felly dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gyfeirio at y cynnig fel disgrifir ym mharagraff 1.1 uchod.**

Bydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei ddosbarthu i'r ymgynghori canlynol cyn y cyfnod ymgynghori statudol, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru:

| Gofynion y Cod Trefniadaeth 006/2013 | Dosberthir i… |
|---|---|
| Awdurdod sy'n cynnal neu'r awdurdod arfaethedig sy'n cynnal unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni | Cyngor Gwynedd sy'n cyflwyno'r cynnig |
| Unrhyw awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno - gan gynnwys, yn achos darpariaeth yr AALl dynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ar ddatganiad oddi mewn iddi | Cynghorau Powys, Dinbych, Conwy ac Ynys Môn |
| Awdurdod Esgobaethol Yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig i'r ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig | Awdurdod Esgobaethol Bangor Yr Eglwys yng Nghymru, |
| Unrhyw gorff crefyddol perthnasol arall i unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arni | Awdurdod Esgobaethol Catholig |
| Corff Llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun cynigion a chyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig yn debygol o | Corff Llywodraethu Ysgol Tryfan, Ysgol Glanadda, Ysgol Glancegin, Ysgol Babanod Coedmawr, Ysgol y |

| | |
|---|---|
| effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai a allai dderbyn unrhyw ddisgyblion sydd wedi cael eu dadleoli | Garnedd, Ysgol y Faenol, Ysgol Hirael, Ysgol Llandygai, Ysgol Cae Top, Ysgol Ein Harglwyddes |
| Rhieni (a darpar rieni, lle bo hynny'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, a staff yr ysgolion hynny | Rhieni, gofalwyr, gwarcheidwaid, a staff Ysgol Tryfan, Ysgol Glanadda, Ysgol Glancegin, Ysgol Babanod Coedmawr, Ysgol y Garnedd, Ysgol y Faenol, Ysgol Hirael, Ysgol Llandygai, Ysgol Cae Top, Ysgol Ein Harglwyddes |
| Gweinidogion Cymru | Carwyn Jones AC , Jeremy Miles AC, Mark Drakeford AC, Vaughn Gething AC, Lesley Griffiths AC, Ken Skates AC, Kirsty Williams AC, Alun Davies AC, Julie James AC |
| Aelodau Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n destun i'r cynigion | AC Etholaeth Arfon<br>Sian Gwenllian AC<br>ACau rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru<br>Michelle Brown AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Mark Isherwood AC<br>Mandy Jones AC<br>AS Etholaeth Arfon<br>Hywel Williams AS |
| Estyn | Meilyr Rowlands – Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| Undebau Athrawon ac undebau staff perthnasol sy'n cynrychioli ysgolion a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun i'r cynigion | Cynrychiolwyr ASCL, ATL, UCAC, GMB, NUT, NAHT, UNSAIN, NASUWT |
| Y Consortiwm Addysg Ranbarthol berthnasol | Arwyn Thomas – Prif Swyddog GwE<br>Anwen Williams – Cydlynydd Consortiwm Gogledd Cymru |
| Y Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol berthnasol | - |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun i'r cynigion | Arfon Jones - Comisiynydd Heddlu Gogledd Cymru |
| Unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun i'r cynigion | Cyngor Dinas Bangor |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwr annibynnol y gallai'r cynigion effeithio arnynt | Tir na n-Og Gofal Dydd,<br>Meithrinfa Ffalabalam,<br>Meithrinfa Wlpan Berea,<br>Busy B's Bangor Nursery,<br>Cylch Meithrin Talybont a Llandygai,<br>Cylch Meithrin Penrhosgarnedd,<br>Caban Cegin,<br>Caban Ysgol Hirael,<br>Cylch Ysgol Cae Top |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle mae'r partneriaethau hyn yn bodoli | Gwynedd Ni<br>Mudiad Meithrin – arbenigwyr blynyddoedd cynnar |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth AALl, unrhyw gorff iechyd neu gorff trydydd sector perthnasol gyda diddordeb yn y cynigion. | Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |

| | |
|---|---|
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol. | Cynrychiolydd Grŵp Llandrillo Menai |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar y ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd ac sydd fel arfer yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. | Rhieni Ysgol Tryfan, Ysgol Glanadda, Ysgol Glancegin, Ysgol Babanod Coedmawr, Ysgol y Garnedd, Ysgol y Faenol, Ysgol Hirael, Ysgol Llandygai, Ysgol Cae Top, Ysgol Ein Harglwyddes |
| Arall | Meri Huws – Comisiynydd y Gymraeg,<br>Penaethiaid holl ysgolion Gwynedd,<br>Holl Gynghorwyr Cyngor Gwynedd<br>Mantell Gwynedd |

Bydd y ddogfen ymgynghori hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg a bydd copïau caled ar gael ar gais o'r Swyddfa Moderneiddio Addysg.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd swyddogion Cyngor Gwynedd yn cynnal sesiynau "galw heibio" er mwyn rhoi cyfle i unigolion ofyn cwestiynau ac er mwyn trafod gyda Llywodraethwyr, staff addysgu ac ategol, rhieni a'r cyhoedd. Gweler isod y dyddiadau a'r amseroedd ar gyfer y sesiynau hynny:

| Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| **Dydd Llun 30 Ebrill 2018** | **16:00 – 20:00** | **Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, LL57 2TR** |
| **Dydd Mawrth 1 Mai 2018** | **14:00 – 18:00** | **Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, LL57 2TR** |

Bydd y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol yn cael eu hystyried gan y Cabinet, cyn gwneud penderfyniad ar y camau nesaf. Bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn penderfynu parhau â'r cynnig ai peidio, ac a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ai peidio.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd pecyn gwybodaeth gefndirol ar gael ym mhob ysgol leol, mewn llyfrgelloedd lleol ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg. Mae'r pecyn yn cynnwys:

- Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion(Cymru) 2013
- Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i blant Gwynedd
- Pecyn Ystadegau (2017-18)
- Adroddiad Asesiad Ardrawiad Ieithyddol
- Adroddiad Asesiad Ardrawiad Cymunedol
- Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Ionawr 2017
- Adroddiad Cabinet a Thaflen Benderfyniad Mawrth 2018

Os ydych yn dymuno derbyn y ddogfen hon ar ffurf wahanol, cysylltwch â'r Swyddfa Moderneiddio Addysg ar 01286 679247.

## Ymgynghoriad gyda Plant a Phobl Ifanc

Gwneir trefniadau hefyd i sicrhau ein bod yn derbyn barn plant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion y dalgylch. Bydd sesiynau dynodedig yn cael eu cynnal gyda grŵp o ddisgyblion o bob ysgol y dalgylch – mae'r union drefniadau i'w cadarnhau. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gyfer plant a phobl ifanc i'w gweld ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg ynghyd â ffurflen ymateb/holiadur. Golygai hyn y gall plant a phobl ifanc sydd heb fynychu sesiwn yn eu hysgol, ymateb i'r ymgynghoriad yn ogystal.

## Sut i Ymateb i'r Ymgynghoriad?

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi'r ffurflen ymateb sydd wedi ei hatodi i'r ddogfen ymgynghori a'i dychwelyd i:

**E-bost:** moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru

**Post:** Swyddfa Moderneiddio Addysg
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

**Nodyn** - Rhaid i bob ymateb, boed drwy'r post neu e-bost, gyrraedd Pencadlys y Cyngor erbyn **13:00 o'r gloch ar ddydd Mawrth, 22 Mai 2018.**

# 3. Gwybodaeth Gefndirol

## 3.1 Sut y Datblygwyd y Cynnig

Datblygwyd y cynnig yn unol â chyflawni nod y strategaethau presennol. Cyflwynwyd y Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" i gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 2il Ebrill 2009. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r nod o adolygu ysgolion cynradd yn unol â dalgylchoedd ysgolion uwchradd, a sefydlwyd meini prawf i flaenoriaethu'r dalgylchoedd y dylid eu hadolygu yng Ngwynedd.

Derbyniwyd y strategaeth yn unfrydol gan y Cyngor ac mae'n amlinellu'r weledigaeth:

"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"

Mae'r strategaeth yn adnabod chwe phrif amcan, sef:

1) Dosbarthiadau addas o ran maint ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel
2) Hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg
3) Datblygu cynllun hirdymor, rhagweithiol a chreadigol
4) Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael
5) Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir
6) Datblygu ysgolion yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol

Yn ogystal, ystyriwyd y strategaethau a'r amcanion a ganlyn fel y datblygiad y cynnig:

- Tuag at 2025 – Dyfodol Addysg a Hyfforddiant i Blant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd
- Strategaeth Ysgolion 21ain Ganrif
- Strategaeth Iaith Gymraeg Gwynedd

Ar ddiwedd 2016, hysbysodd Llywodraeth Cymru fod cyfle i Awdurdodau Lleol gyda'r capasiti, i gyflawni prosiectau ychwanegol oddi mewn Band A Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif. Roedd y cadarnhad hwn yn galluogi'r Cyngor i gychwyn adolygu'r ddarpariaeth addysg bresennol ym Mangor fel rhan o becyn ariannol arfaethedig gwerth £12,730,000 a fyddai'n cynnwys cyfraniad gan y Cyngor.

Byddai'r adolygiad yn ystyried effaith datblygiadau tai newydd ym Mangor ar gapasiti ysgolion lleol i dderbyn disgyblion. Mae un datblygwr wedi derbyn caniatâd cynllunio i adeiladu 245 o anheddau, ac eisoes wedi adeiladu nifer ohonynt. Mae'r cwmni wedi ymrwymo i gyfrannu £1,115,387 at addasu'r ddarpariaeth addysgol oed cynradd ym Mangor.

Yn y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2017, cymeradwywyd argymhelliad, 'gofyn am yr hawl i gychwyn trafodaethau lleol yn unol â'r adroddiad ynglŷn ag adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor'.

## 3.2 Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Bangor

Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch (PAD) Bangor yn ystod Mehefin 2017, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2017, gyda'r olaf ar 29 Tachwedd 2017. Roedd cynrychiolwyr o bob ysgol yn y dalgylch wedi cael gwahoddiad, gan gynnwys, pennaeth, cadeirydd llywodraethwyr a rhiant llywodraethwyr. Rhoddwyd wahoddiad yn ogystal i'r Aelodau Lleol ac i gynrychiolaeth o'r Eglwys yng Nghymru (Esgobaeth Bangor) ac yr Eglwys Gatholig.

Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd a gwella'r ddarpariaeth i ddysgwyr y ddinas. Fel rhan o'r broses, adnabuwyd nifer o amcanion i'w hystyried ar gyfer y ddarpariaeth yn nalgylch Bangor sef:

- Sicrhau digon o lefydd ar gyfer pob plentyn yn y lleoliadau priodol;
- Sicrhau nad oes unrhyw ysgol yn orlawn;
- Sicrhau nad oes unrhyw ysgol wedi'i asesu yng nghyflwr C neu waeth;
- Lleihau llefydd gweigion sylweddol mewn ysgolion neu gynyddu effeithiolrwydd;
- Lleihau amrediad cost y pen ar gyfer darparu addysg yn y dalgylch;
- Sicrhau bod maint dosbarthiadau yn addas yn yr ysgolion cynradd;
- Sicrhau nad oes dros 25 disgybl o'r un oedran mewn un dosbarth;
- Sicrhau nad oes rhagor na 20 disgybl o oedrannau gwahanol mewn un dosbarth;
- Cysoni ansawdd addysg yn y dalgylch;
- Sicrhau nad oes unrhyw bennaeth yn treulio rhagor na 20% o'i amser yn dysgu;
- Datblygu'r defnydd o ysgolion fel adnodd cymunedol;
- Gwella'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn y dalgylch.

Y prif faterion a nodwyd gan aelodau'r PAD oedd;

- Yr angen i unrhyw opsiwn gynnwys gwelliannau a chodi capasiti i rai adeiladau ysgolion Bangor
- Bod ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw effaith ar sefyllfa trafnidiaeth ym Mhenrhosgarnedd

- Ystyriaeth i faterion ieithyddol
- Sicrhau trefniadau priodol ar gyfer plant Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda
- Ystyriaeth i unrhyw safleoedd addas ar gyfer datblygu sydd ar gael ym Mangor.

Yn dilyn mewnbwn aelodau'r PAD, a chyflwyno rhestr fer o’r opsiynau posibl, anfonwyd holiadur i aelodau’r PAD i gyflwyno sylwadau gan yr ysgolion perthnasol ynglŷn a’r opsiynau arfaethedig. O ran y sylwadau a dderbyniwyd, roedd ymateb yn ffafrio opsiynau 3 a 10.

Opsiwn 3

Ymestyn Y Faenol i gynyddu’r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i’r Garnedd gan gynyddu’r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coed Mawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i’r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.

Opsiwn 10

Cynyddu capasiti’r Faenol (270). Garnedd i safle newydd a chodi chapasiti (330). Addasu safle Glanadda i dderbyn plant Coed Mawr (90). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i’r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes.

## 3.3 Buddsoddiad Cyfalaf

Cyd-destun pwysig yw maint y pecyn sydd ar gael i foderneiddio darpariaeth addysg gynradd yn ninas Bangor. Ers dechrau’r trafodaethau yn y dalgylch, mabwysiadwyd rhaglen o fuddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru dan faner Rhaglen Ysgolion yr 21ain. Byddai’n debygol o gynnwys buddsoddiad o gyfanswm £12.7 miliwn, gyda £6.35 miliwn o’r swm hwnnw yn grant gan Lywodraeth Cymru, mae ymrwymiad hefyd gan gwmni datblygu tai, fel rhan o gytundeb ar gyfer datblygiad newydd Goetre Uchaf ym Mhenrhosgarnedd.

Mae grant Llywodraeth Cymru wedi ei gymeradwyo yn dilyn cyflwyno achos busnes llawn. Er mwyn sicrhau nad yw newid yng nghyfeiriad y prosiect yn gweithredu’n groes i delerau ac amodau’r grant, mae’r opsiynau sy’n cael eu cyhoeddi a’u hystyried fel rhan o’r gwerthusiad opsiynau (para 5.4) wedi datblygu o fewn cyd-destun gofynion yr achos busnes.

# 4. Trefniadau Presennol Dalgylch Bangor

Y trefniadau presennol Ysgolion Cynradd y Dalgylch yw, mae 9 ysgol gynradd (Ysgol Y Garnedd, Hirael, Y Faenol, Llandygai, Cae Top, Glancegin, Babanod Coedmawr, Glanadda ac Ein Harglwyddes).

## Ysgolion sydd yn Destun yr Ymgynghoriad yma:

### 4.1 Ysgol y Garnedd

- Mae Ysgol y Garnedd yn gwasanaethu Bangor gyfan a phentrefi cyfagos megis Tal-y-Bont a Llandygai.
- Mae gan yr Ysgol 338 o ddisgyblion ar y gofrestr.
- Mae gan 7.5% o ddisgyblion yr hawl i gael cinio am ddim sydd yn is na chyfartaledd y Sir yn 13.8%.
- Mae 67.2% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

### 4.2 Ysgolion Babanod Coedmawr a Glanadda

- Mae Babanod Coedmawr wedi 'w leoli ar gyrion tref Bangor.
- Bydd y disgyblion yn trosglwyddo i Safle Iau Ysgol Glanadda yn 7 oed.
- Mae'r ysgol yn darparu addysg cyfnod sylfaen i blant rhwng tair a saith oed.
- Mae gan yr ysgol 28 o blant ar y gofrestr.
- Mae gan 45.6% o ddisgyblion yr hawl i brydau am ddim gyda chyfartaledd y Sir yn 13.8%.
- Mae 25% o blant yn siarad Cymraeg yn y cartref.

- Lleolir Glanadda ar y ffin Orllewinol ardal drefol Bangor.
- Mae 38 o blant rhwng 7-11 ar y gofrestr.
- Mae'r ysgol wedi ffederaleiddio gydag Ysgol Babanod Coedmawr.
- Mae'r ffederasiwn presennol yn cael ei adnabod fel Ysgol Bro Ddewi ffurfiwyd y ffederasiwn yn 2011 gydag un pennaeth dros y ddau safle.
- Mae 30.3% o ddisgyblion a hawl i ginio am ddim i gymharu â chyfartaledd y Sir o 13.8%.
- Mae 25% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

## Ysgolion Cynradd eraill sydd yn rhan o'r Dalgylch:

### 4.3 Ysgol Y Faenol

- Mae ysgol y Faenol yn ysgol o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru, ym Mhenrhosgarnedd
- Mae yna 219 o ddisgyblion ar y gofrestr.
- Mae gan 4.1% o ddisgyblion yr hawl i dderbyn prydau am ddim sydd yn is na chyfartaledd y Sir o 13.8 y cant.
- Mae 13.3% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

### 4.4 Ysgol Cae Top

- Mae Ysgol Cae Top o dan Reolaeth yr Eglwys yng Nghymru.
- Mae wedi 'w leoli ym Mangor.
- Mae yna 239 o ddisgyblion ar y gofrestr.

- Mae gan 12.5% o ddisgyblion yr hawl i gael pryd  am ddim sydd yn is na chyfanswm y Sir o 13.8%.
- Mae 37.5% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

## 4.5 Ysgol Ein Harglwyddes

- Ysgol Gatholig Wirfoddol dan gymorth yw ysgol Ein harglwyddes, sydd wedi ‘w leoli ar gyrion dinas Bangor.
- Mai’n gwasanaethu plwyfi Pabyddol megis Bethesda , Porthaethwy, Llangefni ,cei rhai disgyblion yn teithio yn bell i’w cael eu haddysgu yno.
- Mae gan yr ysgol 123 o ddisgyblion ar y gofrestr .
- Mae gan 12.5% o ddisgyblion yr hawl i bryd am ddim sydd yn is na chyfartaledd y Sir o 13.8%.
- Gwelir mai 3.2% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

## 4.6 Ysgol Glancegin

- Mae Ysgol Glancegin wedi ‘w leoli yn Stad Maesgeirchen yn Ninas Bangor.
- Mae ganddi 251 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda’r rhan fwyaf yn hanu o’r Stad .
- Cafwyd Ysgol Newydd a agorwyd ym Medi 2017.
- Mae gan 36.1% o ddisgyblion yr hawl i brydau am ddim gyda chyfartaledd y Sir yn 13.8%.
- Mae 24.1% o’r disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

## 4.7 Ysgol Llandygai

- Mae ysgol Llandygai wedi ‘w leoli o fewn pentref Llandygai tu allan i Fangor.
- Mae’r ysgol o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.
- Mae yna 149 o ddisgyblion ar y gofrestr .
- Mae gan 20.7% o ddisgyblion yr hawl i bryd am ddim sydd yn uwch na chyfartaledd y Sir 13.8% .
- Mae 29% o blant yn Siarad Cymraeg yn y cartref.

## 4.8 Ysgol Hirael

- Lleolir ysgol Hirael yn Ninas Bangor ar yr ochor  ogleddol o’r ddinas.
- Mae ganddi 195 o ddisgyblion ar y gofrestr.
- Mae gan 22.1% o ddisgyblion yr hawl i gael prydau am ddim gyda chyfartaledd y Sir yn 13.8%.
- Mae 13.3% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

## 4.9 Categorïau Ysgolion

Mae ysgolion Gwynedd yn cael eu diffinio fel rhai Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir *(VA)* neu Wirfoddol a Reolir *(VC)*. Yn ychwanegol, gall ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a Gwirfoddol a Reolir gael eu dynodi gyda chymeriad crefyddol h.y. fel ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Mae Ysgolion y Garnedd, Babanod Coedmawr a Glanadda yn ysgolion ‘Cymunedol’.

## Crynodeb o Ystadegau'r Ysgolion:

| | | Ysgol | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Glancegin** | **Garnedd** | **Glanadda** | **Ein Harglwyddes** | **Y Faenol** | **Llandygai** | **Cae Top** | **Babanod Coedmawr** | **Hirael** | **Tryfan** | **Friars** |
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Ll57 4ST | LL572LX | LL57 4SG | LL57 2UT | LL57 2NN | LL57 4HU | LL57 2GZ | LL57 4TL | LL57 1BA | LL57 2TY | LL57 2LN |
| **Ystod Oedran** | | 3-11 | 3-11 | 7-11 | 3-11 | 3-11 | 3-11 | 3-11 | 3-7 | 3-11 | 11-18 | 11-18 |
| **Categori'r Ysgol**<br>**Ysgol Gymuned [CS]**<br>**Gwirfoddol dan Gymorth [CWN]**<br>**Gwirfoddol dan Reolaeth [CWR]**<br>**Ysgol Uwchradd Sirol [US]** | | CS | CS | CS (I) | CWN<br>(C) | CWR<br>(E) | CWR<br>(E) | CWR<br>(E) | CS<br>(B) | CS | US | US |
| **Categori Cyfrwng Iaith** | | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| ***Niferoedd o ddisgyblion ar y gofrestr – Medi 2017*** | **Meithrin** | 38 | 33 | - | 9 | 13 | 14 | 27 | 4 | 24 | **Bl. 7-11**<br>352 | **Bl. 7-11**<br>1,046 |
| | **Derbyn – Bl. 6** | 213 | 305 | 41 | 114 | 206 | 135 | 213 | 24 | 171 | **Bl. 12-13**<br>84 | **Bl. 12-13**<br>227 |
| | **Cyfanswm** | 251 | 338 | 41 | 123 | 219 | 149 | 240 | 28 | 195 | 436 | 1,273 |
| **Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr am y pedair blynedd flaenorol** | **Medi *2016*** | 235 | 357 | 50 | 128 | 236 | 151 | 240 | 34 | 159 | 465 | 1,213 |
| | **Medi *2015*** | 229 | 346 | 42 | 126 | 253 | 143 | 242 | 40 | 168 | 484 | 1,226 |
| | **Medi *2014*** | 218 | 335 | 43 | 124 | 259 | 156 | 236 | 39 | 164 | 518 | 1,253 |
| | **Medi *2013*** | 218 | 333 | 45 | 123 | 261 | 158 | 240 | 53 | 181 | 526 | 1,269 |
| | **Medi *2012*** | 205 | 344 | 41 | 114 | 237 | 154 | 245 | 65 | 195 | 542 | 1,277 |
| **Capasiti** | **Meithrin** | 30 | 30 | - | 16 | 26 | 22 | 30 | 18 | 26 | - | - |
| | **Derbyn – Bl. 6** | 210 | 210 | 71 | 113 | 186 | 157 | 214 | 56 | 186 | 628 | 1,328 |
| **Llefydd Gweigion Medi 2017** | | 29 (10%) | 0 (0%) | 30 (42%) | 0(0%) | 0 (0%) | 8 (5%) | 0 (0%) | 32 (57%) | 0 (0%) | 192 (31%) | 55 (4%) |
| **Rhagamcanion Disgyblion** | **Medi *2018*** | 264 | 334 | 36 | 121 | 206 | 138 | 240 | 28 | 191 | 430 | 1,272 |
| | **Medi *2019*** | 262 | 333 | 38 | 116 | 206 | 144 | 240 | 28 | 197 | 436 | 1,280 |
| | **Medi *2020*** | 268 | 337 | 28 | 115 | 206 | 141 | 240 | 26 | 188 | 447 | 1, 280 |
| | **Medi *2021*** | 261 | 328 | 32 | 106 | 200 | 140 | 240 | 30 | 188 | 447 | 1,279 |
| | **Medi *2022*** | 261 | 326 | 34 | 94 | 192 | 140 | 240 | 29 | 188 | 454 | 1,274 |
| **Data perfformiad Ysgolion (Estyn)** | | 1xDigonol<br>2xDa<br>(2013) | 2xDa<br>1xRhagorol<br>(2012) | 2xDigonol<br>1xAnfoddhaol<br>(2013)<br>Monitro<br>2014 | 1xDigonol<br>2xDa<br>*(2013)*<br>*Monitro*<br>*2014* | *3xDa*<br>*(2010)* | *3xDa*<br>*(2012)* | *3xRhagorol*<br>*(2016)* | *3xDigonol*<br>*(2015)*<br>*Monitro*<br>*2016* | *3x Digonol*<br>*(2015)*<br>*Monitro*<br>*2016* | *3xDa*<br>*(2013)* | *1xDigonool*<br>*2xDa*<br>*(2011)*<br>*Monitro*<br>*2012* |
| Categori Cyflwr Adeiladau (Criteria'r Cyngor) | | A | B | B | B | A | B | A | B | B | B | A |
| Dyraniad Cyllidol 2017/18 | | £800,000 | £1,039,000 | £253,000 | £429,000 | £684,000 | £527,000 | £786,000 | £189,000 | £524,000 | £2,342,000 | £5,342,00 |
| Cost y disgybl 2017/18 | | £3,674 | £3,111 | £5,052 | £3,475 | £3,121 | £3,782 | £3,521 | £6,525 | £3,562 | £5,037 | £4,404 |

# 5. Achos dros newid

## 5.1 Cefndir

Mae’r ardal wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o’r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn gwynegu’r ddarpariaeth addysg sy'n cynnwys:

- Mae dwy ysgol yn ardal Penrhosgarnedd yn sylweddol dros gapasiti, sef Ysgol Y Garnedd ac Ysgol Y Faenol. Ym mis Medi 2017, roedd Ysgol Y Faenol 20 llefydd dros capasiti, ac Ysgol Y Garnedd 95 dros capasiti.
- Gall datblygiadau tai newydd ym Mangor roi mwy o bwysau ar allu’r ysgolion lleol i dderbyn plant. Mae un datblygwr wedi derbyn caniatâd cynllunio i adeiladu 245 o anheddau, ac eisoes wedi adeiladu nifer ohonynt.
- Mae gan Ysgol Babanod Coedmawr 57% o lefydd gweigion ac Ysgol Glanadda 42% o lefydd gweigion.
- Nid oes gan weddill ysgolion cynradd Bangor fwy na 10% o lefydd gweigion. Mae 5 allan o’r deg ysgol gynradd yn llawn, gyda rhai ohonynt gyda niferoedd y disgyblion yn fwy na’r capasiti.
- Mae’r gost fesul disgybl yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd y dalgylch ychydig yn is na’r cyfartaledd sirol o £3,777, gydag Ysgolion Babanod Coedmawr (£6,525), Glanadda (£5,052) yn sylweddol uwch. Mae amrediad yng nghost y pen rhwng 2 o ysgolion cynradd Bangor o £3,414, sef rhwng Ysgol Babanod Coedmawr (£6,525) ac Ysgol Garnedd (£3,111).
- Mae Ysgol Babanod Coedmawr yn derbyn £32,520 o gyllid ychwanegol blynyddol trwy’r “rhwyd-diogelu lleiafswm staffio”.
- Mae ysgol Babanod Coedmawr a Glanadda dan arweiniad pennaeth mewn gofal dros dro oherwydd problemau denu Pennaeth parhaol i’r swydd.
- Mae anghysondeb yn ansawdd addysg y dalgylch.

Y nod yw bydd y buddsoddiad arfaethedig yn cyfarch dyheadau strategol Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i ddarparu darpariaeth addysg Gymraeg gynaliadwy, byddai hyn yn cynnwys:

- Gwell cysondeb yn safon ac ansawdd yr addysg a ddarperir yn y dalgylch
- Gwella effeithlonrwydd stad yr ysgol, gan leihau nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael
- Gwneud cyfraniad sylweddol tuag at leihau nifer o lefydd gweigion
- Rhyddhau cyllideb i’w wario ar blant o fewn y gyfundrefn addysg yn hytrach nag adeiladau
- Cysoni nifer yr ysgolion i gyfarch y galw
- Rhesymoli cost fesul disgybl mewn ysgolion. Gan leihau'r gost fesul disgybl i hafal neu well na’r cyfartaledd Sirol o £3,777 i’r Cynradd.
- Gwell cysondeb mewn maint dosbarthiadau a lleihau'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau ysgolion cynradd
- Gwella’r amgylchedd ddysgu i fwy o ddisgyblion a chynyddu’r nifer disgyblion a fydd yn elwa o amgylchfyd ddysgu 21ain Ganrif
- Sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn

Mae’r nifer o ddisgyblion sy’n mynychu Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn isel o’i gymharu â gweddill ysgolion Bangor. Ym Medi 2017, roedd 28 disgybl yn Ysgol Babanod Coedmawr a 41 disgybl yn Ysgol Glanadda gyda chyfanswm o 69 (meithrin- Bl.6) ar gofrestr y ddwy ysgol, tra bod 224 o blant y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion cynradd eraill (mae Ysgol Y Garnedd yn derbyn y nifer fwyaf, sef 78 o blant o Ysgolion Babanod Coedmawr a Glanadda).

| | | Dalgylch Cartref | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cae Top** | **Hirael** | **Babanod Coedmawr + Glanadda** | **Y Faenol** | **Glancegin** | **Llandygai** | **Arall** | **Cyfanswm** |
| **Ysgol** | Y Garnedd | 46 | 28 | 78 | 69 | 23 | 20 | 74 | 338 |
| | Cae Top | 90 | 13 | 59 | 18 | 7 | 3 | 49 | 239 |
| | Hirael | 13 | 102 | 20 | 5 | 37 | 2 | 17 | 196* |
| | Babanod Coedmawr + Glanadda | 5 | 2 | 50 | 4 | 2 | 2 | 4 | 69 |
| | Y Faenol | 12 | 1 | 34 | 111 | 3 | 3 | 55 | 219 |
| | Ein Harglwyddes | 8 | 20 | 43 | 11 | 12 | 1 | 28 | 123 |
| | Llandygai | 1 | 8 | 4 | 1 | 28 | 45 | 63 | 150* |
| | Glancegin | 3 | 5 | 5 | 0 | 235 | 0 | 3 | 251 |
| | **Cyfanswm** | **178** | **179** | **293** | **219** | **347** | **76** | **293** | **1,585** |

** Efallai na fydd data a gymerir o SIMS ysgol ar ddiwrnod y cyfrifiad yn cyfateb yn union â'r ffurflen cyfrifiad ysgolion*

*Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Medi 2017*

## 5.2 Nifer y Disgyblion a Rhagamcanion

Mae nifer disgyblion yn ysgolion Gwynedd wedi amrywio ers 1975; fodd bynnag yn gyffredinol, bu gostyngiad o tua 18% yn nifer y disgyblion ar draws y Sir. O ganlyniad, caiff adnoddau eu gwario bob blwyddyn ar gynnal a chadw adeiladau a systemau aneffeithlon yn hytrach nag ar addysg plant a phobl ifanc.

Dyma dabl sydd yn crynhoi niferoedd disgyblion ysgolion y dalgylch rhwng 1980 a 2017

| | Niferoedd [Meithrin – Bl.6 (Oed 3-11)] Number [Nursery - Yr.6 (Age 3-11)] | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol School** | **1980** | **1985** | **1990** | **1995** | **2000** | **2005** | **2010** | **2015** | **2017** | **1980-2017 twf / growth** | **1980-2017 % twf / growth** |
| **Glanadda** | 128 | 83 | 87 | 89 | 61 | 63 | 45 | 42 | 41 | -87 | -68% |
| **Coed Mawr** | 73 | 67 | 48 | 90 | 54 | 49 | 57 | 40 | 28 | -45 | -62% |
| **Y Garnedd** | 218 | 185 | 191 | 268 | 271 | 312 | 325 | 346 | 338 | 120 | 55% |
| **Hirael** | 189 | 167 | 168 | 221 | 223 | 252 | 201 | 168 | 195 | 6 | 3% |
| **Y Faenol** | 141 | 108 | 110 | 147 | 244 | 243 | 244 | 253 | 219 | 78 | 55% |
| **Llandygai** | 128 | 128 | 135 | 150 | 176 | 169 | 181 | 143 | 149 | 21 | 16% |
| **Cae Top** | 243 | 170 | 207 | 195 | 212 | 216 | 251 | 242 | 240 | -3 | -1% |
| **Ein Harglwyddes** | 135 | 149 | 113 | 151 | 123 | 113 | 115 | 126 | 123 | -12 | -9% |
| **Glancegin** | 309 | 235 | 326 | 328 | 264 | 226 | 207 | 229 | 251 | -58 | -19% |
| **Ardal / Area** | 1564 | 1292 | 1385 | 1639 | 1628 | 1643 | 1626 | 1589 | 1584 | | |

*Ffynhonnell: Data Medi 2017*

Dengys y tabl bod niferoedd disgyblion ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda ar gyfer Medi 2017 y rhai isaf ers 25 mlynedd. Mae'r gostyngiad yn niferoedd ysgol Babanod Coedmawr ers 1980 yn dangos fod 68% llai o blant yn mynychu ysgol Glanadda, gyda 62% yn llai yn mynychu ysgol Babanod Coedmawr yn yr un cyfnod. I'r gwrthwyneb, mae niferoedd Ysgol y Garnedd wedi cynyddu 55% yn yr un cyfnod.

Dengys y tabl isod y boblogaeth bresennol o ddisgyblion yn y dalgylch.

| Ysgol | Niferoedd (Medi 2017) | |
|---|---|---|
| | Llawn amser | Rhan amser |
| Glanadda | 41 | - |
| Babanod Coedmawr | 24 | 4 |
| Y Garnedd | 305 | 33 |
| Hirael | 171 | 24 |
| Y Faenol | 206 | 13 |
| Llandygai | 135 | 14 |
| Cae Top | 212 | 27 |
| Ein Harglwyddes | 114 | 9 |
| Glancegin | 213 | 38 |

*Ffynhonnell: Data Medi 2017*

Dengys y tabl isod rhagamcanion y dalgylch ar gyfer y 5 mlynedd nesaf

| Ysgol | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Glanadda | 36 | 38 | 28 | 32 | 34 |
| Babanod Coedmawr | 28 | 28 | 26 | 30 | 29 |
| Y Garnedd | 334 | 333 | 337 | 328 | 326 |
| Hirael | 191 | 197 | 188 | 188 | 188 |
| Y Faenol | 206 | 206 | 206 | 200 | 192 |
| Llandygai | 138 | 144 | 141 | 140 | 140 |
| Cae Top | 240 | 240 | 240 | 240 | 240 |
| Ein Harglwyddes | 121 | 116 | 115 | 106 | 94 |
| Glancegin | 264 | 262 | 268 | 261 | 261 |
| **Cyfanswm** | **1558** | **1564** | **1549** | **1525** | **1504** |

## 5.3 Gwerthuso Gwahanol Opsiynau

### Opsiynau Posib

Trafodwyd nifer o opsiynau cyn i'r rhestr hir gael ei chreu. Yr athroniaeth y tu cefn i'r opsiynau oedd ystyried pob un ysgol yn y dalgylch, gan geisio ffyrdd fyddai'n gwella a chynnal safon addysg yn y dalgylch.

Roedd yr opsiynau'n cynnwys:

- Opsiwn o gydweithio/ffedereiddio rhwng rhai neu holl ysgolion presennol heb gau ysgolion
- Opsiwn o gydweithio/ffedereiddio rhwng ysgolion yn dilyn cau rhai ysgolion
- Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf na chydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
- Cau rhai ysgolion cynradd gan drosglwyddo disgyblion i ysgolion cyfagos heb fuddsoddiad cyfalaf, a sefydlu cydweithio rhwng yr ysgolion sy'n weddill
- Cau rhai ysgolion cynradd a sefydlu ysgol(ion) ardal yn dilyn buddsoddiad cyfalaf
- Sefydlu un ysgol 3-16 neu 3-18 ar un safle i holl ddisgyblion y dalgylch

## 5.4 Rhestr Hir o Opsiynau Posib

Crëwyd rhestr hir o opsiynau yn dilyn trafodaethau gydag aelodau o'r PAD:

| **Status Quo** | Gwneud Dim |
|---|---|
| **Opsiwn 1** | Ymestyn Ysgol Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 270. Cau Ysgol Coedmawr, Glanadda a'r Garnedd. Creu ysgol newydd ar 2 safle (babanod ac iau) gyda'r ysgol babanod ar safle Coedmawr (180) a'r iau ar safle'r Garnedd (240). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Opsiwn 2** | Cau Ysgol Coedmawr, Glanadda, Y Faenol a'r Garnedd. Datblygu ysgol newydd gyda chapasiti o 690. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Opsiwn 3** | Ymestyn Y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 315. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 420. Cau Ysgol Coedmawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Opsiwn 4** | Adeilad newydd i'r Garnedd, capasiti o 350 i 380. Ysgol newydd i Coedmawr a Glanadda i gynnwys llefydd i'r plant newydd o dai Pen y Ffridd (Goetre Uchaf). Ymestyn y Faenol i tua 250 a datrys problemau traffig. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Opsiwn 5** | Un ysgol gydol oes ym Mangor (2,746 + 306). Cau pob ysgol gynradd ac uwchradd |
| **Opsiwn 6** | Uno ysgol Tryfan a Friars a chreu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg (1,347 + 306) gan godi ysgol gynradd newydd ar safle cyfredol Tryfan (420) ac ymestyn Ysgol Faenol (270). Cau Ysgol Coedmawr, Glanadda a Y Garnedd. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Opsiwn 7** | Cyfuno Ysgol Tryfan a Dyffryn Ogwen ar safle newydd (700 + 150?). Ysgol gynradd newydd ar safle cyfredol Tryfan (420) ac ymestyn Ysgol Faenol (270). Cau Ysgol Coedmawr, Glanadda a'r Garnedd. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Opsiwn 8** | Cau Glanadda a Coedmawr. Estyniad i'r Faenol (270). Adeilad newydd i'r Garnedd (380-420 o blant). Adeilad newydd i Ein Harglwyddes (120) yn ystod yr ail ffes (cyllid yr Eglwys). Creu cyfleusterau cymunedol chwaraeon i'w rhannu gan y Garnedd, Friars, Cae Top (fel Parc Eirias). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol. |

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 9** | Ail adeiladu Ysgol Ein Harglwyddes ar yr un safle (120).Rhoi estyniad i Glanadda (90) er mwyn cyfuno gydag Ysgol Coedmawr. Ail adeiladu Coedmawr er mwyn gwneud lle i ormodedd y Faenol a'r Garnedd (240). Parc Cegin o bosib? Ail gyflwyno gwasanaeth bws ar gyfer disgyblion. Rhaid i'r ysgolion fod yn ddigon mawr ar gyfer twf poblogaeth. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol. |
| **Opsiwn 10** | Cynyddu capasiti'r Faenol (270). Garnedd i safle newydd a chodi chapasiti (330). Addasu safle Glanadda i dderbyn plant Coedmawr (90). Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Opsiwn 11** | Ysgol newydd i'r Faenol (270). Garnedd i safle newydd a chynyddu'r capasiti (420). Cau Coedmawr a Glanadda. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |
| **Opsiwn 12** | Ymestyn y Faenol i gynyddu'r capasiti o 186 i 360. Ysgol newydd i'r Garnedd gan gynyddu'r capasiti o 210 i 330. Cau Ysgol Coedmawr a Glanadda gan ddanfon plant i Faenol. Cynyddu capasiti Glancegin i dderbyn plant cyfnod sylfaen ychwanegol. Gwelliannau i rannau adeilad Ysgol Hirael. Ystyriaeth i'r ddarpariaeth Uwchradd gan gynnwys cyflwr yr adeiladau presennol ac adeilad newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes. |

## 5.5 Gwerthusiad Opsiynau

Datblygwyd gwerthusiad opsiynau er mwyn crynhoi prif fanteision ac anfanteision y modelau a ystyriwyd fel rhan o'r rhestr uchod o fodelau posib. Gwerthuswyd yr holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r PAD gan roi ystyriaeth i'r Côd Trefniadaeth Ysgolion, strategaeth ad-drefnu Cyngor Gwynedd, gweledigaeth dalgylch Bangor a ffactorau perthnasol eraill.

Mae copi o'r gwerthusiad opsiynau llawn wedi ei gynnwys fel atodiad i'r ddogfen hon.

# 6. Y Cynnig

## Crynodeb o'r Cynnig

Yn dilyn gwerthusiad o'r opsiynau posibl, y cyfeiriad ffafrir a'r cynnig sy'n destun yr ymgynghoriad statudol hwn yw cau Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda ac adeiladu ysgol newydd i'r Garnedd gyda capasiti o 420.

| | | |
|---|---|---|
| **Lleoliad** | Tir ger Ysgol y Garnedd | |
| **Ystod oedran** | 3-11 | |
| **Categori'r ysgol (cymunedol, gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir)** | Cymunedol | |
| **Categori Iaith** | Cyfrwng Cymraeg | |
| **Dyddiad gweithredu** | 1 Medi 2020 | |
| **Niferoedd a ragwelir - Medi 2020** | *Meithrin*<br>52 | *Derbyn – Bl 6*<br>339 |
| **Nifer a dderbynnir** | *Meithrin*<br>30 bore<br>30 prynhawn | *Derbyn – Bl 6*<br>60 |
| **Capasiti (yn seiliedig ar Gylchlythyr Llywodraethwyr Cynulliad Cymru 21/2011 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru)** | *Meithrin*<br>30 bore<br>30 prynhawn | *Derbyn – Bl 6*<br>420 |
| **Ansawdd yr adeilad a'r ystafelloedd dosbarth (Categori Cyflwr Adeilad)** | *A* | |

Byddai hyn yn cynnwys ail-leoli Ysgol y Garnedd ar safle cyfagos a chynnig lle i ddisgyblion Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni).

Fel gyda phob sefyllfa debyg, mae gan rieni'r hawl i ddewis lleoliad amgen ar gyfer eu plant os ydynt yn dymuno. Gan y bydd y newidiadau yn Ysgol y Faenol gerllaw yr un adeg a datblygu adeilad newydd ar safle'r Garnedd, tebyg y bydd rhai yn dymuno dewis yr ysgol honno ar gyfer addysg eu plant.

Mi fyddai'r opsiwn yma'n golygu y byddwn yn:

a) Adeiladu ysgol fydd yn cyrraedd safon Ysgolion yr 21ain Ganrif, y safon cwricwlwm uchaf.
b) Gwell amgylchedd gweithio i staff
c) Peth lleihad mewn costau cynnal a chadw adeiladau
d) Cysoni cost lwfans y pen ar gyfer disgyblion
e) Lleihau niferoedd llefydd gweigion o fewn yr ysgolion

Ceir rhai o'r rhesymau pam mai'r opsiwn hwn yw'r opsiwn a ffafrir a pham mai hwn sy'n destun y cyfnod ymgynghori statudol yn yr adran hon.

## 6.1 Ansawdd yr Addysg

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o’r ansawdd gorau bosibl a fydd yn rhoi’r profiadau, y sgiliau a’r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Un o’r blaenoriaethau sef darparu’r profiadau dysgu gorau bosibl – ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy’n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wellau safonau.

Mae’r Cyngor wedi penderfynu buddsoddi yn y gyfundrefn ysgolion, er mwyn gwella a sicrhau cysondeb mewn cyrhaeddiad addysgol a dysgu’r disgyblion. Mae hefyd yn ceisio lleihau’r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng ysgolion, a hefyd o fewn ysgolion.

Mae arweinyddiaeth, llywodraethu da a strwythur rheoli yn ffactorau allweddol o ran cael ysgolion sy’n tanberfformio i wella eu perfformiad yn y pen draw.

| |
|---|
| Mae **Ysgol y Garnedd** wedi cael ei chategoreiddio’n wyrdd sy'n golygu ei bod yn "ysgol hynod effeithiol sy'n cael ei rhedeg yn dda, gydag arweinyddiaeth gref a chlir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau.” |
| Mae **Ysgol Babanod Coedmawr** yn cael ei dynodi’n felyn, sef "ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd sydd angen iddi eu gwella" |
| Mae **Ysgol Glanadda** yn cael eu dynodi’n felyngoch , sef “ysgol sydd angen gwella ac angen cefnogaeth i adnabod y camau perthnasol er mwyn gwella” |

### Crynodeb o adroddiadau Estyn:

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw’r deilliannau? | Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? |
|---|---|---|---|---|
| **Glanadda** | **2013** | **Digonol** | **Digonol** | **Anfoddhaol** |
| **Babanod Coedmawr** | **2015** | **Digonol** | **Digonol** | **Digonol** |
| **Y Garnedd** | **2012** | **Da** | **Da** | **Rhagorol** |

*Ffynhonnell: Gwefan Estyn*

### Ansawdd yr Addysg a Safonau yn Nhair Ysgol sydd yn Rhan o’r Ymgynghoriad:

Mae adroddiadau arolygon Estyn yn nodi bod safon darpariaeth addysg y tair ysgol yn amrywio.

### Ysgol y Garnedd

Yn ystod yr arolwg diwethaf gan Estyn Hydref 2012. Nodwyd Estyn bod perfformiad Ysgol Garnedd yn dda gyda rhagolygon gwella’r ysgol yn rhagorol.

“mae disgyblion yn mwynhau bod yn yr ysgol, ac mae eu hymddygiad a’u hymrwymiad i ddysgu yn ardderchog “

Yn ogystal â hyn nodwyd fod yr athrawon yn cyd-weithio i ddatblygu cynlluniau gwaith manwl i’r disgyblion. Cyfeiriwyd fod gwaith yr Uned Awtistiaeth yn rhagorol, gan gynnwys cynhaliaeth arbennig o dda i ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r adroddiad hefyd yn tynnu sylw fod y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn gyda rhai agweddau o’r dysgu yn rhagorol.

| CA 2 sy'n cyflawni o leiaf lefel 4 yn y pwnc craidd 2017 (Y Garnedd) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DPC** | **Saesneg** | **Mathemateg** | **Gwyddoniaeth** | **Cymraeg** |
| **Ysgol** | 96.2% | 100.0% | 96.2% | 100% | 100.0% |
| **Cyfartaledd Gwynedd** | 92.1% | 93.2% | 93.3% | 93.8% | 91.1% |
| **Cyfartaledd Cymru** | 89.5% | 91.1% | 91.6% | 92.2% | 91.6% |

## Ysgol Babanod Coedmawr

Yn ystod yr arolwg diwethaf yn Ionawr 2015, nodwyd fod yr ysgol yn ddigonol gyda rhagolygon o wella'r ysgol yn ddigonol.

"Disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda"

Yn ogystal nodwyd fod y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr Ysgol. Serch hyn nodwyd fod "perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn gyson yn yr 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg". Cyfeiriwyd fod cyfradd presenoldeb yn parhau i fod yn isel. Datganwyd "Nid yw staff yn cynllunio digon o weithgareddau gwahanol ar gyfer herio disgyblion o allu uwch yn briodol"

| Cyfnod Sylfaen sy'n cyflawni o leiaf ddeilliant 5 ac o leiaf ddeilliant 6 2017 (Babanod Coedmawr) | | | |
|---|---|---|---|
| | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol** | **Cymraeg** | **Mathemateg** |
| **Ysgol** | 100% | 87.5% | 100.0% |
| **Cyfartaledd Gwynedd** | 95.3% | 88.3% | 90.3% |
| **Cyfartaledd Cymru** | 94.7% | 90.9% | 90.3% |

## Ysgol Glanadda

Yn arolwg Chwefror 2013. Nodwyd fod yr ysgol y ddigonol gyda rhagolygon i wella yn anfoddhaol. Nodwyd fod gan yr ysgol gymuned "hapus a gofalgar". Cyfeiriwyd fod "medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn datblygu'n dda ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i'r ysgol" yn yr adroddiad Estyn.

Datganwyd "nid oes digon o gynnydd ym medrau darllen ac ysgrifennu estynedig llawer o ddisgyblion yn y ddwy iaith" yn ogystal nodwyd ; "nid oes digon o her i sicrhau bod y disgyblion mwyaf galluog yn gwneud cynnydd priodol ar draws y cwricwlwm".

| CA 2 sy'n cyflawni o leiaf lefel 4 yn y pwnc craidd 2017 (Glanadda) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DPC** | **Saesneg** | **Mathemateg** | **Gwyddoniaeth** | **Cymraeg** |
| **Ysgol** | 78.6% | 78.6% | 92.9% | 85.7% | 83.3% |
| **Cyfartaledd Gwynedd** | 92.1% | 93.2% | 93.3% | 93.8% | 91.1% |
| **Cyfartaledd Cymru** | 89.5% | 91.1% | 91.6% | 92.2% | 91.6% |

## 6.2 Crynodeb o Effaith Y Cynnig Presennol ar Wella Safonau Addysgol

Drwy symud ymlaen gyda'r opsiwn a ffafrir i gau ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda gan symud y disgyblion i Ysgol y Garnedd (yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni) byddai'n galluogi cysoni darpariaeth yr addysg a sicrhau bod plant yn cael yr addysg gorau a phosib ar gyfer y dyfodol.

Ni fydd y cynnig yn cael effaith ar ddarpariaeth y cwricwlwm llawn gan gynnwys y cyfnod sylfaen gan fod Ysgol y Garnedd eisoes yn darparu addysg yn y cyfnod sylfaen a'r cyfnod allweddol dau yn bresennol.

## 6.3 Capasiti'r Ysgol

## Maint Dosbarthiadau ac Ystod Oedran Priodol

Ein disgwyliad yw y bydd dosbarthiadau o faint priodol mewn ysgolion cynradd, cyn belled ag y bo modd, fel bod plant o fewn y sir yn derbyn y profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl.

Mae Cyngor Gwynedd yn anelu i gael maint dosbarthiadau rhwng 12-25 o ddisgyblion, lle mae plant i gyd o'r un ystod oedran. Mae'r ystod oedran o fewn dosbarthiadau hefyd yn rheswm dros sicrhau darpariaeth addas ar gyfer y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar fabwysiadu egwyddorion newydd i ddarparu sylfeini ar gyfer system addysg yn y dyfodol a fydd yn addas i bwrpas. Mae trefn addysg arfaethedig ar gyfer yr ysgolion cynradd wedi'i asesu ar sail egwyddorion cyffredinol:

- Amodau arweinyddiaeth sy'n anelu tuag at gynnig 80% o amser digyswllt i'r pennaeth,
- Dosbarthiadau o ddim mwy na dau oedran.

Gallai'r nodau hyn ymateb i'r her fwyaf sy'n wynebu'r sector cynradd, sef penaethiaid heb amser digonol i arwain, ac athrawon mewn ysgolion bychain sydd yn gorfod addysgu ystod eang o blant o wahanol oedrannau a galluoedd oddi fewn yr un dosbarth.

Ym mis Medi 2017, roedd ysgol y Garnedd yn sylweddol dros gapasiti gyda 95 dros capasiti.

Byddai cynyddu maint Ysgol Y Garnedd i 420 yn golygu strwythur a fyddai cynnwys dau ddosbarth ar gyfer pob oedran h.y. mynediad â lle i 60 o blant ym mhob grŵp blwyddyn, rhwng grwpiau Derbyn a Blwyddyn Chwech. Rhagwelir y bydd pegynau amrediad oedran o fewn dosbarthiadau sydd yn bodoli yn yr ysgolion yn diflannu, sydd yn fodd o leddfu'r heriau a phroblemau addysgu a dysgu effeithiol y gall ddigwydd pan ceir ystod oedran eang mewn un dosbarth.

Dengys y tabl isod beth yw maint dosbarthiadau presennol Ysgol y Garnedd, Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda. Ar hyn o bryd, mae plant yn cael eu haddysgu mewn grwpiau oedran sy'n rhychwantu dau ystod oedran. Mae niferoedd mewn dosbarthiadau yn amrywio o ysgol i ysgol ac yn effeithio ar brofiad addysgol y disgyblion – mae maint dosbarthiadau yn amrywio o 17 i 30.

| Ysgol | Meithrin | | Derbyn | Bl 1 | Bl2 | Bl 3 | Bl 4 | Bl 5 | Bl 6 | Cyfanswm | Nifer y dosbarthiadau | Dosbarth mwyaf | Dosbarth lleiaf | Maint dosbarth ar gyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol y Garnedd | 7 | 5 | 15 | 15 | 14 | 16 | 14 | 17 | 13 | 338 | 12 | 30 | 24 | 28.1 |
| | 8 | 3 | 13 | 16 | 13 | 17 | 13 | 17 | 12 | | | | | |
| | 6 | 4 | 15 | 16 | 14 | 15 | 13 | 16 | 11 | | | | | |
| Ysgol Babanod Coedmawr | 4 | | 7 | 11 | 6 | - | | | | 28 | 2 | 17 | 11 | 14 |
| Ysgol Glanadda | - | | | | | 4 | 17 | 9 | 11 | 41 | 2 | 21 | 20 | 20.5 |

*Ffynhonnell: Data Medi 2017*

Drwy symud ymlaen i gau Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda, a throsglwyddo'r disgyblion i safle newydd Ysgol y Garnedd, bydd y ddarpariaeth addysgol yn cyfuno'r ddarpariaeth addysgol gynradd bresennol yn un, gan arwain at well cysondeb ym maint dosbarthiadau.

Mater i lywodraethwyr Ysgol y Garnedd byddai i benderfynu maint dosbarthiadau a dosbarthiad adnoddau staff yr ysgol.

## 6.4 Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd arweiniad cryf mewn ysgol fel ffordd o gynnal a gwella safonau. Mae'r camau canlynol ar waith er mwyn sicrhau arweinyddiaeth gref yn ysgolion Gwynedd ar gyfer y dyfodol:

- GwE yn hyfforddi un uwch-reolwr o bob ysgol uwchradd i ddatblygu eu sgiliau arwain personol, a hefyd i ddatblygu rheolwyr canol eu hysgolion;
- Ysgolion llwyddiannus yn rhannu arfer dda a chynnal dyddiadau Datblygu Arweinyddiaeth i reolwyr gweddill yr ysgolion;
- Cynlluniau ysgol i ysgol yn sicrhau fod arweinwyr ysgolion yn cydweithio ac yn datblygu arbenigedd arweinydd;
- Annog darpar arweinwyr i ennill y cymhwyster CPCP;
- Cynllun mentora Penaethiaid;
- Cynllun Peilot Arweinydd Strategol dalgylchol ar waith er mwyn hybu a datblygu arweinyddiaeth strategol yng Ngwynedd

Ein gobaith yw y bydd penaethiaid yn cael digon o gyfle i ddarparu arweinyddiaeth a rheolaeth broffesiynol ar gyfer eu hysgolion. Hefyd rydym yn disgwyl i gyrff llywodraethol arwain ysgolion yn effeithlon o fewn eu cyllidebau er budd y disgyblion. Byddwn yn disgwyl i ysgolion fod ar staff gorau ar gyfer darparu addysg o'r ansawdd orau.

Mae'r arweinyddiaeth yn Ysgol y Garnedd wedi ei adnabod gan Estyn (2012) yn "rhagorol", gydag arweiniad cadarn yn cael ei roi gan y Pennaeth a'r uwch dim rheoli.

Ar hyn o bryd, nid oes pennaeth parhaol gan naill ai Ysgol Babanod Coedmawr na Ysgol Glanadda. Yn hytrach, penaethiaid cynorthwyol sydd yn y ddwy ysgol, ynghyd a Phennaeth mewn gofal yn gweithredu yn ddigyswllt rhwng y ddwy ysgol. Yn ogystal, disgwylir i benaethiaid cynorthwyol Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda fod yn gyfrifol am addysgu dosbarth yn ogystal â rheoli safle'r ysgol.

Mae'r sefyllfa yn ysgolion Glanadda a Babanod Coedmawr wedi bod yn un o'r prif ystyriaethau ar gyfer newid, gyda sefyllfa fregus yn ymwneud a diffyg trefniadau arweinyddiaeth gwydn. Mae hyn wedi cynnig datrysiad tymor byr ond yn amlwg mae'r sefyllfa yn anghynaladwy yn y tymor hir.

### Effaith ar Reolaeth ac Arweinyddiaeth

Mae angen sicrhau amodau gwaith sy'n galluogi penaethiaid i sefydlu awyrgylch cynhyrchiol a phositif er mwyn i ddisgyblion gyrraedd eu potensial. Yn ogystal, mae penaethiaid yn gyfrifol am osod diwylliant o welliannau parhaus sy'n cael eu gwerthuso ac sy'n cynnig cymorth i athrawon a rheolwyr canol eraill yn eu hysgolion. Un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu sector cynradd yw'r ffaith nad oes gan benaethiaid amser digonol i arwain mewn ysgolion bach iawn, a bod angen ar adegau addysgu ystod eang o blant o wahanol oedrannau a galluoedd yn yr un dosbarth. Mae Estyn (2013) yn nodi:

*"Mae arweinyddiaeth a phrosesau i wella ansawdd fel arfer wedi'u datblygu'n well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion cynradd bach, mae gan lawer o benaethiaid gyfrifoldeb addysgu sylweddol sy'n cyfyngu ar yr amser y gallant ei neilltuo i arwain a rheoli ac fe gânt lai o gyfleoedd i arfarnu safonau ac ysgogi gwelliant."*

Gall ysgolion gyda niferoedd uchel o blant fel Ysgol y Garnedd cynnig strwythur mwy cadarn i gynllunio a darparu'r cwricwlwm trwy sefydlu timau rheoli canol ac arweinwyr pwnc a chwricwlwm. Yn ogystal, gellir canoli nifer o gyfrifoldebau megis rhai yn ymwneud a'r cwricwlwm a materion rheolaethol, sy'n gallu bod yn faich i sefydliadau bach, e.e. trefniadau arfarnu, cynlluniau datblygu, rheoli perfformiad. Mae'n fwy o her i ysgolion llai i fedru creu rhaglenni hyfforddi datblygiad proffesiynol a chynlluniau datblygu penodol ynghyd a chynnig cyfleoedd teg i staff ddatblygu arbenigaeth pwnc a rhannu ymarfer da gyda chyfoedion.

## 6.5 Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau

Nod y Cyngor yw darparu adeiladau addysg gynradd o ansawdd yn y Sir trwy gynllunio strwythuredig, gan ddarparu ystafelloedd priodol i benaethiaid ysgol ac athrawon a mynediad i gaeau chwarae a neuadd briodol i blant. Bydd angen i adeiladau gydymffurfio â gofynion Cyfnod Sylfaenol a'r cwricwlwm yn ogystal.

Mae Rhaglen Ysgolion 21 Ganrif Llywodraeth Cymru yn nodi bod yr amgylchedd addysgu yn ffactor bwysig wrth ddarparu addysg.

Mae adroddiad Estyn "*Gwerthuso perfformiad ysgolion cyn ac ar ôl iddynt symud i adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi'u hadnewyddu'n sylweddol*" (2007) yn cadarnhau'r farn uchod. Noda'r adroddiad fod cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion sydd wedi cael eu hadnewyddu yn gwella. Noda fod adroddiadau Estyn ar ysgolion unigol yn dangos fod ansawdd yr addysgu wedi gwella, fod morâl staff yn uwch, fod presenoldeb wedi'i gynnal a bod ymddygiad wedi gwella. Yn ychwanegol i hyn, mae adeiladau sydd wedi'u gwella'n cynnig gwell dewis a darpariaeth o ran addysg mewn ysgolion a'r gweithgareddau a gynhelir cyn ac ar ôl oriau ysgol.

Disgwyliwn i amgylchedd dysgu plant ac athrawon y sir - sef cyflwr yr ysgol, y dosbarth, yr ystafell staff, y ddarpariaeth chwarae - ddiwallu gofynion addysgu a dysgu ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Mae gwir bryder am gyflwr ac addasrwydd ysgolion cynradd y sir. Mae angen buddsoddi'n sylweddol yn yr adeiladau i

ymdrin â materion iechyd a diogelwch ac i gyrraedd y safonau priodol. Mae nifer o adeiladau ysgolion mewn cyflwr gwael. Mae cost diweddaru ac addasu adeiladau ysgol y sir i ddiwallu gofynion cwricwlwm newydd a'r safonau disgwyliedig yn sylweddol.

Mae'r tabl isod yn cynnwys cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgolion y Garnedd, Babanod Coedmawr a Glanadda, yn ogystal â chostau'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen.

| Ysgol | Categori Cyflwr | Diffygion Addasrwydd a Chyflwr | Cost y Cynnal a Chadw sydd ei Angen |
|---|---|---|---|
| **Ysgol y Garnedd** | C | • Addasrwydd – Nifer y dysgwyr yn yr Ysgol yn fwy na chapasati swyddogol yr Ysgol. Nifer o ddysgwyr yn cael eu haddysg mewn gofod anaddas. Maint y dosbarthiadau yn rhy fach.<br>• Cyflwr –<br>  • Mae angen gwaith ar bron bob elfen o'r adeiladwaith erbyn hyn. Mae rhannau helaeth o'r adeiladwaith o wneuthuriad coed ac mae parhau i'w gynnal yn anodd. Yn y dyfodol byddai angen adnewyddu rhannau sylweddol o'r adeilad a hyd yn oed wedyn byddai'n parhau i fod yn anaddas i bwrpas. | - |
| **Ysgol Glanadda** | B | • Addasrwydd - Cynllun yr Ysgol yn anhyblyg. Maint yr ystafelloedd dosbarth ddim i safonau presennol.<br>• Cyflwr –<br>  • Angen adnewyddu'r ffenestri<br>  • Angen uwchraddio sustem awyru'r gegin<br>  • Angen adnewyddu fargoed y to<br>  • Angen paentio'r tu allan | £85,000 |
| **Ysgol Babanod Coedmawr** | B | • Addasrwydd – Cynllun yr Ysgol yn anhyblyg. Dosbarthiadau yn rhy fach. Safle yn gyfyngedig a dim modd ei ehangu.<br>• Cyflwr –<br>  • Angen adnewyddu'r sustem drydanol.<br>  • Gwaith i'r iard chwarae<br>  • Angen adnewyddu'r ffenestri<br>  • Angen adnewyddu rhannau o'r gegin gan gynnwys gwella'r awyriant.<br>  • Angen adnewyddu'r toeau fflat | £245,000 |

*Ffynhonnell: Adran Eiddo Gwynedd*

| Allwedd i'r Categorïau: | | | |
|---|---|---|---|
| **A** | DA (Dim Dirywiad) | **C** | GWAEL (Dirywiad Mawr) |
| **B** | BODDHAOL (Mân Ddirywiad) | **D** | DRWG (Wedi cyrraedd diwedd ei hoes) |

Mae'r Cyngor yn cynnal arolygon cyflwr blynyddol ar ei holl eiddo. Mae'r arolygon blynyddol yn cyfrannu at Gynllun Rheoli Asedau'r Awdurdod ac yn galluogi blaenoriaethu'r rhaglen waith cynnal a chadw ysgolion. Mae'r arolygon hyn hefyd wedi arwain at gynnydd sylweddol yng nghyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw ers 2009/10.

## Ysgol y Garnedd

Mae angen gwaith ar bron bob elfen o'r adeiladwaith erbyn hyn. Mae rhannau helaeth o'r adeiladwaith o wneuthuriad coed ac mae parhau i'w gynnal yn anodd. Mae nifer y disgyblion yn yr Ysgol yn fwy na chapasti swyddogol yr Ysgol, gyda nifer o ddisgyblion yn cael eu haddysg mewn gofod anaddas. Mae maint y dosbarthiadau yn rhy fach.

## Ysgol Babanod Coedmawr

Nid yw Ysgol Coedmawr mewn cyflwr cystal ag mae angen ei ail weirio, adnewyddu toeau fflat, ffenestri newydd a gwaith ar y gegin. Mae modd parhau ei gynnal ond bydd nid yw o adeiladwaith safonol a bydd angen buddsoddiad parhaus i'w gynnal. Mae cynllun yr ysgol yn anhyblyg a maint yr ystafelloedd dosbarth ddim i safonau presennol. Mae'r safle yn gyfyngedig a dim modd ei ehangu

## Ysgol Glanadda

Mae Ysgol Glanadda yn adeilad carreg Fictorianaidd ei natur ac mae modd ei gynnal yn barhaus. Mae angen gwaith ar y ffenestri, to a'r gegin. Fel arall mae mewn cyflwr derbyniol. Mae cynllun yr ysgol yn anhyblyg a maint yr ystafelloedd dosbarth ddim i safonau presennol.

## 6.6 Manylion y Cynnig

Yn dilyn cwblhau proses dendro ECI (Early Contractor Involvement), mae cwmni wedi ei adnabod i gynorthwyo'r tîm dylunio i gynllunio'r ysgol newydd o safbwynt adeiladed ac effeithlonrwydd cost. Mae'r gwaith yma eisoes wedi dechrau. Mae'r gwaith adeiladu wedi'i raglennu i ddechrau Hydref y flwyddyn yma a disgwylir i'r rhaglen adeiladu'r ysgol gael ei gwblhau erbyn tymor Pasg 2019. Gweler isod argraffiad cyntaf y Pensaer (AGA) o'r dyluniad ar gyfer yr ysgol newydd.








Paratowyd y dyluniad lefel uchel cychwynnol yn dilyn nifer o ymweliadau safle a chyfarfodydd gyda rhan ddeiliaid y prosiect.

Amcan pwysig yn y dyluniad fydd gwella llif pobl trwy'r adeilad a gwella addasrwydd yr amgylchedd dysgu i blant. Bydd trefnu'r gofodau mewnol yn galluogi'r Ysgol i reoli mynediad at ofod y neuadd a'r ardal 'gymunedol' trwy drefnu amserlen yn ofalus a gwella mynediad.

Mae agweddau o'r dyluniad yn cynnwys elfennau sydd wedi'u nodi fel enghreifftiau o'r arfer orau yn sgil prosiectau blaenorol a gwblhawyd gan yr awdurdod a phrosiectau eraill a gwblhawyd o fewn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Er enghraifft, defnyddir nodweddion arloesol megis toiledau mewn ardal agored i atal bwlio, a chynhigir gofodau dysgu hyblyg. Yn ogystal, mae'r dyluniad yn ystyried y materion addasrwydd hynny sy'n llesteirio dysgu ar hyn o bryd.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y gwahanol elfennau fydd yn cael eu cynnwys fel rhan o waith adeiladu'r ysgol newydd, yn ogystal â'r buddion cysylltiedig.

| Elfen | Disgrifiad | Manteision |
|---|---|---|
| Ystafell Ddosbarth | Creu ardaloedd dysgu o faint addas i'r niferoedd o ddysgwyr ynddynt, gwella'r ddarpariaeth addysg drwy gael ystafelloedd hyblyg mewn parau i bob blwyddyn. | Bydd hyn yn gwella amgylchedd dysgu'r plant ac yn cynnig amgylchedd dysgu newydd |
| Ystafelloedd Dosbarth Cyfnod Sylfaen | Creu ystafelloedd dosbarth pwrpasol gydag adnoddau addas. Creu agoriadau o'r ystafelloedd dosbarth cyfnod sylfaen i'r tu allan a rhoi canopïau y tu allan i'r agoriadau. Toiledau oddi ar bob dosbarth. | |
| Canopïau | Darparu canopi i warchod rhag y glaw / haul y tu allan i'r dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen. | Gall y plant fod y tu allan hyd yn oed os nad yw'r tywydd yn ffafriol |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | Cyfleusterau a dwy ystafell ddosbarth newydd ar gyfer disgyblion gyda anghenion dysgu ychwanegol | Bydd hyn yn gwella amgylchedd dysgu plant gyda Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Man Chwarae Aml Ddefnydd | Darparu man chwarae bob tywydd gyda gwyneb tarmac. | Gellir defnyddio'r man chwarae beth bynnag fo'r tywydd |
| Ystafell y Pennaeth | Ystafell newydd i'r Pennaeth yn addas ar gyfer cynnal cyfarfodydd gyda rhieni, llywodraethwyr a staff. | Gan fod Penaethiaid yn cael eu rhyddhau yn fwy o'u cyfrifoldebau dysgu er mwyn canolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Bydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | yr ystafelloedd hyn yn fan ac yn adnodd defnyddiol ar gyfer y Pennaeth. |
| Ystafell Staff | Ystafell staff pwrpasol newydd yn ganolog i’r Ysgol, yn edrych dros man chwarae y Cyfnod Sylfaen | Bydd ystafell staff wedi’i lleoli’n ganolog i’r Ysgol yn sicrhau yr hwylusir cydweithio rhwng staff ar draws yr Ysgol. |
| Ystafell CPA | Ystafelloedd pwrpasol i’r staff baratoi eu gwaith i ffwrdd o’r dosbarth a’r Ystafell Staff. | Rhoi cyfle teg i’r athrawon baratoi mewn amgylchedd heb rwystrau. |
| Derbynfa ac Ystafelloedd Gweinyddol. | Derbynfa newydd sydd yn ddigon mawr i fod fel cyntedd ar gyfer gweithgareddau yn y neuaddau. Ystafelloedd gweinyddol yn ardal y cyntedd /derbynfa. | Gellir rheoli a monitro mynediad i’r Ysgol ac i'r cyfleusterau cymunedol gan ddefnyddio isafswm o adnoddau. Bydd hyn yn galluogi darparu gwasanaethau safon uchel i holl ddisgyblion, staff ac ymwelwyr yr ysgol |
| Adnoddau | Ardaloedd pwrpasol yn agos i’r ystafelloedd dosbarth ble gellir ymgymryd â thasgau ymarferol gan ddefnyddio’r dechnoleg a’r offer diweddaraf. | Galluogi addysgu modern i’r safon uchaf gydag adnoddau a dodrefn addas. |
| Ardal Dawel / Ymlacio | Ardal benodol i ddisgyblion anhwylus a man addas ar gyfer arbenigwyr sy'n ymweld | Gwella’r ardal benodol ar gyfer disgyblion anhwylus i aros i’w rhieni i ddod i’w nôl nhw ac ar gyfer doctoriaid, deintyddion, nyrsys, swyddogion lles plant sy'n ymweld i gynnal cyfarfodydd. |
| Neuadd yr Ysgol | Neuadd addas i’w defnyddio fel adnodd ymgynnull, chwaraeon, a neuadd fwyta i’r ysgol. | Bydd disgyblion, staff a’r cyhoedd yn elwa o’r ardal aml-ddefnydd hon. |
| Stiwdio / Neuadd fach | Darparu stiwdio gyfochrog â’r neuadd gyda phared symudol rhwng y ddau er mwyn creu un ystafell fwy. Cegin fach a storfeydd oddi arni. | Bydd disgyblion yn elwa o well cyfleusterau ar gyfer addysg gorfforol. Mae’r stiwdio yn adnodd lle y gall y ‘Clwb Brecwast’ neu’r ‘Clwb ar ôl Ysgol’ gwrdd – potensial i godi incwm. |
| Ystafelloedd newid | Adnoddau i’r dysgwyr newid cyn gwersi addysg gorfforol | Gan fod yr ystafelloedd newid wedi’u lleoli ger y neuadd, gellir eu defnyddio ar gyfer perfformiadau a gynhelir yn y neuadd. |
| Ystafelloedd storio | Creu ystafelloedd storio addas | Bydd y gwelliannau hyn yn gwella safonau’r amgylchedd dysgu, iechyd a diogelwch a materion mynediad. |
| Toiledau ac Ystafell Hylendid | Toiledau modern newydd, yn addas ar gyfer gwahanol oedrannau mewn gwahanol ardaloedd o'r adeilad. | |
| Parcio | Mynedfa newydd i'r safle gyda mesurau i sicrhau gwahanu cerddwyr a thraffig. Creu maes parcio newydd ar safle’r hen adeilad gyda mannau parcio pwrpasol i staff ac ymwelwyr. Bydd ardal i fysiau ollwng/codi ac ardal ar gyfer parcio i'r anabl. | |
| Cegin | Cegin newydd gyda chyfarpar modern a thechnoleg newydd e.e. popty anwytho | Gwella effeithlonrwydd ac yn rhoi’r raddfa amgylcheddol uchaf posib i’r ysgol. |
| Ystafell Gwresogi ac Offer | System wresogi nwy i gynnwys bwyleri effeithlon o ran ynni | |

## 6.7 Trefniadau Cludiant Arfaethedig

Strategaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer addysg gynradd ac uwchradd ydy anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 45 munud. Mae cludiant ar gael am ddim ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sydd yn byw 2 filltir neu fwy o’r ysgol yn eu dalgylch ac i ddisgyblion ysgol uwchradd o dan 16 sydd yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol.

Wrth symud i’r adeilad newydd, ni ragwelir bydd angen i unrhyw ddisgybl deithio pellter afresymol i gyrraedd safle addysgol, yn unol a’r strategaeth. Mae Ysgol Glanadda wedi ei leoli 0.8 milltir i ffwrdd o safle presennol Ysgol y Garnedd, gydag Ysgol Babanod Coedmawr wedi ei leoli 0.3 milltir i ffwrdd. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol a Pholisi Cludiant ysgolion y Sir, ac ni ragwelir unrhyw gynnydd yng nghostau cludiant yn deillio o weithredu ar yr opsiwn ffafriedig.

Mae nifer o ddisgyblion sy'n mynychu'r ddwy ysgol sef Ysgol Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn cerdded i'r ysgol. Bydd y cynnig yn golygu y bydd y disgyblion hynny sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd yn parhau i wneud hynny er mwyn mynychu Ysgol y Garnedd.

## 6.8 Llefydd Gweigion

### Targedau Cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau

Mae'r Cyngor angen lleihau llefydd gweigion i gyd-fynd â thargedau sydd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru ac yn dilyn argymhellion a wnaethpwyd gan Estyn yn ei adroddiad ar ddarpariaeth addysgol yr awdurdod ym Mawrth 2013.

Bydd lleihau llefydd gweigion yn sicrhau bod canran uwch o gyllideb addysg y Sir yn cael ei wario'n uniongyrchol ar addysg yn hytrach nag ar gynnal isadeiledd ysgol ddrud ac aneffeithlon sydd ddim yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Mae disgwyl i awdurdodau lleol reoli newidiadau i'r dalgylchoedd er mwyn sicrhau bod y galw a thwf ym mhoblogaeth y disgyblion yn cael ei ystyried pan wneir penderfyniad i greu ysgol newydd neu ehangu adeilad presennol. Rhaid i'r dewis o safle a'r opsiwn ysgol newydd sicrhau bod cynaliadwyedd a lleihau'r nifer o leoedd gwag yn greiddiol i amcanion y prosiect.

Felly mae cynllunio ar gyfer dyfodol addysg mewn gwahanol ddalgylchoedd angen adlewyrchu tueddiadau o ran niferoedd poblogaeth a disgyblion cynradd. Mae'r Cyngor eisoes wedi cymryd camau cychwynnol i ymateb i'r her hon ac mae'r cynnig hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr amcan o leihau nifer y lleoedd gwag a sefydlu system addysg gynaliadwy. Mewn ymweliad ôl-arolwg yn 2014 er mwyn monitro'r argymhellion penodol a wnaeth i'r Sir i leihau llefydd gweigion, daeth Estyn y casgliad cadarnhaol bod y Cyngor yn cyfarch yr her "i raddau helaeth".

### Cost Ariannol Llefydd Gweigion

Yn ôl Estyn, mae cau a chyfuno ysgolion yn un ffordd o leihau nifer y lleoedd gwag, gan ryddhau arbedion i'w hail-fuddsoddi a chodi safonau. Lle ceir rhesymau addysgol a chadarn dros wneud hynny, mae hwn yn ddull y bydd Cyngor Gwynedd yn ei ddilyn. Fodd bynnag, bydd y ffordd yr ymdrinnir â lleoedd gwag yn amrywio yn ôl dalgylch, gan ddibynnu ar sefyllfa a gofynion pob dalgylch penodol.

Mae nifer uchel o lefydd gweigion yn bodoli yn ysgol Babanod Coedmawr a Glanadda o'u cymharu â'u capasiti. Mae gan Ysgol Babanod Coedmawr 57% o lefydd gweigion ac Ysgol Glanadda 42% o lefydd gweigion. Mewn cyferbyniad a hyn, nid oes gan weddill ysgolion cynradd Bangor fwy na 10% o lefydd gweigion. Mae 5 allan o'r deg ysgol gynradd yn llawn, gyda rhai ohonynt gyda niferoedd y disgyblion yn fwy na'r capasiti.

Gosododd Estyn gost dybiannol un lle gwag mewn ysgol gynradd ar £262, a chost lle gwag mewn ysgol uwchradd ar £510. Mae cost y lleoedd gwag yn Ysgol Babanod Coedmawr a Glanadda yn seiliedig ar ddata Estyn fel a ganlyn:

Mae gan Ysgol Babanod Coedmawr 30 o lefydd gweigion o fewn yr ysgol sydd yn golygu bod cyfanswm cost yn £7,860 ac yn yr un modd mae Ysgol Glanadda a 32 o lefydd gweigion sydd â chost o £8,384.

Er bod y gost o leoedd gwag yn ffactor y mae angen ei hystyried fel rhan o'r broses ad-drefnu, nid dyma'r unig yrrwr. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn ymwybodol o effeithiau a goblygiadau gwariant sylweddol ar

ysgolion sydd â chanran uchel o leoedd gwag - yn enwedig yr effaith a'r goblygiadau a gaiff hynny ar y gyllideb sy'n cyrraedd y disgyblion, a chydbwyso hynny yn erbyn ffactorau eraill sy'n berthnasol wrth ystyried yr hyn sydd orau i ddisgyblion y dalgylch.

## 6.9 Adnoddau Ariannol

Y disgwyliad yw y bydd Gwynedd yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ddarparu addysg yn y Sir. Mae hefyd yn gwneud synnwyr lleihau'r amrywiaeth cost fesul disgybl, lle bynnag y bo modd, er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ar draws y Sir.

Mae hyn yn fwy pwysig gyda'r hinsawdd heriol iawn sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd. Mae'n bwysig felly bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddefnyddio adnoddau mor effeithiol â phosibl o fewn y system addysg a hyfforddiant er lles plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys yr holl adnoddau - dynol, technegol, adeiladu ac ariannol. Yn arbennig, mae cyfran fawr o'r gyllideb addysg yn cael ei gwario ar gynnal seilwaith ysgolion sy'n ddrud iawn ac yn aneffeithlon; mewn sawl achos, cynlluniwyd y seilwaith hwn yn ystod y ganrif ddiwethaf, neu yn ystod oes Fictoria. Yn ogystal, mae gwariant sylweddol ar ysgolion lle mae canran uchel o leoedd gwag.

Amrywia'r gwariant fesul disgybl yn fawr o ysgol i ysgol.

Ar gyfer yr 21ain Ganrif, mae angen sicrhau bod gan Wynedd rwydwaith o ysgolion o'r math cywir yn y lleoliadau cywir ar draws y Sir. Byddai lleihau nifer y lleoedd gwag a sicrhau ysgolion cadarn o ran maint yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu elfennau cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae gweithredu yn y modd hwn yn hanfodol os ydym am hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws y Sir a lleihau effaith tlodi ym mywydau plant a phobl ifanc.

Dyrannwyd cyfanswm o £5,231,881 i ysgolion cynradd y dalgylch yn 2017/18. Mae cost y pen ysgolion cynradd y dalgylch yn £3,527 y disgybl ar gyfartaledd, i gymharu gyda chyfartaledd cost y disgybl yng Ngwynedd o £3,777.

| Ysgol | CYFRAN O'R GYLLIDEB | |
|---|---|---|
| | Cyfanswm y Gyllideb | Cost Fesul Disgybl |
| **Y Garnedd** | £1,039,000 | £3,111 |
| **Babanod Coedmawr** | £189,000 | £6,525 |
| **Glanadda** | £253,000 | £5,052 |

Wrth sefydlu'r adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd, a throsglwyddo plant Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda i safle'r Garnedd amcangyfrifir y gall y cynllun arwain at arbedion refeniw parhaol o tua £107,519 o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.

Rhaid cydnabod bod trefniadau cyfrifo cenedlaethol NNDR (treth adeilad) yn arwain at gynnydd yn dilyn buddsoddiad cyfalaf, ond gyda'r gronfa NNDR yn cael ei ddosbarthu yn ôl i awdurdodau, gellir dadlau na ddylid ystyried y mater yma wrth adnabod arbedion refeniw.

## 6.10 Yr Iaith Gymraeg

Ein disgwyliad yw bod ysgolion Cynradd y sir yn cefnogi ac yn gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg eu disgyblion.

Wrth ddatblygu unrhyw gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion, rhaid rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith gymdeithasol ac iaith addysg bob amser yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion ac wrth asesu dewisiadau.

Cwblhawyd asesiad o effaith ieithyddol ar bob un o'r 12 opsiwn posibl yn y rhestr hir o bosibiliadau er mwyn gallu cymharu'r effaith fyddent yn ei gael ar y Gymraeg yn yr ardal. Mae copi o'r adroddiad yr asesiad wedi ei gynnwyd yn y pecyn cefndirol sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg <http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg>

Mae unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag adrefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn benodol i Gyngor Gwynedd gydweithio â nhw i ledaenu arferion y Siarter Iaith ledled Cymru, ac mae'r Cyngor wedi gwneud hynny gyda'r Siarter bellach yn weithredol mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog ar draws Cymru. Er mwyn cefnogi'r ysgolion i weithredu'r Siarter Iaith, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido swyddi Cydlynwyr Siarter Iaith drwy'r pedwar consortiwm addysg ranbarthol.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r Siarter Iaith i fod yn rhaglen genedlaethol yn rhan allweddol o Fframwaith ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddatblygu ar gyfer y Gymraeg, fydd yn cwmpasu'r Siarter Iaith (Cynllun ni ar gyfer ysgolion Cymraeg dwyieithog), Cymraeg Campus (Cynllun i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion mwy Saesnig) a PCAI (Pecyn Cefnogi Arferion Iaith). Deallir y daw'r Fframwaith hwn yn weithredol yn Medi 2018.

Mae'r opsiynau i gau Ysgolion Coedmawr a Glanadda hefyd yn cynnwys datblygu estyniad sylweddol i Ysgol Y Garnedd. Felly disgwylir bydd y mwyafrif o ddisgyblion a fyddai'n mynd i'r ysgolion yma yn mynd i Ysgol Y Garnedd, yn ddarostyngedig i ddewis rhieni. Yr un yw'r Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion cynradd Gwynedd, felly'r un fyddai'r ddarpariaeth i'r disgyblion waeth pa ysgol y byddent yn dewis mynychu.

Yn unol â'r Polisi Iaith, disgwylir i gyfrwng y ddarpariaeth gwricwlaidd fod yr un fath ar draws ein hysgolion cynradd. Cydnabyddir, serch hynny, ar sail cefndir ieithyddol y plant, fod naws a diwylliant yr ysgolion cynradd ym Mangor (ac ar draws y sir) yn amrywio. Mewn ymateb i hyn, datblygwyd y Siarter Iaith gan y Cyngor - sy'n weithredol ymhob ysgol gynradd yng Ngwynedd- er mwyn annog defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, hyrwyddo naws Gymreig ein hysgolion ac ymwybyddiaeth y plant o Gymreictod.

## 6.11 Y Gymuned

Cwblhaodd y Cyngor asesiad o effaith cymunedol ar bob un o'r 12 opsiwn posibl ar y rhestr hir o bosibiliadau er mwyn gallu cymharu'r effaith fyddent yn ei gael ar y cymunedau dan sylw. Mae copi o'r adroddiad llawn yn cael ei gynnwys yn y pecyn cefndirol ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg <http://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg>

Wrth ddatblygu unrhyw gynigion yn ymwneud â moderneiddio addysg, rhaid rhoi ystyriaeth lawr i'r effaith bosibl ar y gymuned.

Nododd yr asesiad, drwy gau safleoedd Glanadda a Babanod Coedmawr bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu colli. Fodd bynnag, mae ysgolion eraill yr ardal fel Ysgol Y Garnedd eisoes yn gwneud defnydd tebyg o adeilad yr ysgol ac felly, bydd modd parhau gyda defnydd cymunedol tebyg.

Mae casgliad yr asesiad yn nodi nad oes rheswm i unrhyw un o'r opsiynau gael effaith negyddol sylweddol ar y gymuned.

| | Glanadda | Babanod Coedmawr | Y Garnedd |
|---|---|---|---|
| **Yr Urdd** | | | ✓ |
| **Chwaraeon** | ✓ | | ✓ |
| **Ymarfer Côr** | | | ✓ |
| **Ymarfer cerddoriaeth** | ✓ | | ✓ |
| **Clwb Ar ôl ysgol** | | | ✓ |
| **Clwb brecwast** | ✓ | | ✓ |
| **Digwyddiadau Elusennol** | ✓ | | |
| **Clybiau addysgiadol** | | | |
| **Gwasanaethau Cymunedol** | | | |
| **Cylch Meithrin** | | | |
| **Clwb Gwyliau Ysgol** | | | |
| **Dosbarthiadau Derbyn Eglwys Gatholig** | | | |

Ar gyfer y cymunedau ble fydd ysgol yn cau, awgrymir mabwysiadu rhai mesurau i liniaru'r effaith negyddol. Bydd y mesurau lliniaru hyn yn cael eu hystyried gan y Cyngor i'w hymgorffori pe penderfynir gweithredu ar yr argymhellion:

- Er mwyn creu ysbryd cynhwysol a pherchnogaeth, dylid sicrhau ar gychwyn a thrwy gydol y broses bod Llywodraethwyr pob ysgol yn rhan annatod o'r datblygiadau a'r penderfyniadau gyda gwybodaeth reolaidd yn cael ei raeadru i rieni.
- Ymgynghori'n briodol gyda'r cymunedau lleol o ran cytuno ar ddefnydd pwrpasol o'r holl adeiladau i'r dyfodol.
- Dylai'r Cyngor sicrhau fod cynlluniau cludiant ysgol yn bwrpasol

Pe bai'r opsiwn yn cael ei weithredu, gall rhoi ystyriaeth briodol o'r mesurau lliniaru nodwyd yma.

## 6.12 Llywodraethu a Materion Staffio

Corff Llywodraethu

Petai'r cynnig i adeiladau ysgol newydd i ysgol Y Garnedd a chau Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn cael ei weithredu. Byddai'n golygu bod corff llywodraethu ffederasiwn Bro Ddewi yn diddymu os fydd Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn cau ar y 31 Awst 2020.

Ni ragwelir unrhyw newid i gorff llywodraethu presennol Ysgol y Garnedd.

*Goblygiadau Staffio*

Petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo i gau ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda Awst 2020, y bydd goblygiadau staffio yn arwain at ddiswyddiadau gan fyddai'r swyddi yn dod i ben pan mae'r ysgolion yn cau. Er hynny, mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu model polisi adleoli ar gyfer yr ysgolion, ar y cyd â'r Undebau Llafur a phenaethiaid. Mater i'r Corff Llywodraethu fyddai mabwysiadu'r polisi hwn, ei ddiwygio, neu benderfynu peidio mabwysiadu'r polisi. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau sy'n deillio o'r cynnig gydymffurfio â'r gyfraith gyflogaeth angenrheidiol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu eglur ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol wrth weithredu unrhyw gynnig.

Petai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo i adeiladu ysgol newydd i Ysgol y Garnedd, ni fyddwn yn rhagweld y bydd unrhyw newid yn strwythur staffio'r Ysgol gan y byddai'r staff yn trosglwyddo yn uniongyrchol i'w swyddi yn yr adeilad newydd.

Mewn sefyllfa lle mae’r ysgolion yn cau, cynhelir sesiwn galw heibio lle fydd staff o Wasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor yn bresennol os yw unrhyw aelod o staff yn dymuno trafod eu sefyllfa. Bydd croeso hefyd i staff gysylltu â'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn uniongyrchol os ydynt yn dymuno cael trafodaethau un i un. Cynigir pecyn cymorth, gan gynnwys hyfforddiant os yw'n briodol, i'r holl staff a effeithir arnynt gan y cynnig.

## 6.13 Effaith ar gydraddoldeb

Cynhaliwyd asesiad cydraddoldeb ar restr fer o opsiynau posibl. Mae’r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae’r asesiad yn nodi’r sefyllfa bresennol a’r bolisïau a threfniadau sydd mewn lle a fyddai’n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

Mae’r asesiad yn nodi nad yw’r opsiynau arfaethedig yn debygol o gael unrhyw effaith negyddol ar nodweddion cydraddoldeb, a disgwylir bydd effaith positif ar rai o’r nodweddion. Prif nod y cynllun yw gwella’r ddarpariaeth addysg yn y dalgylch, gan sicrhau fod plant yr ardal yn cael addysg dda a chyfleoedd cyfartal mewn adeiladau o safon ac sy’n addas i bwrpas, gan hefyd sicrhau fod unrhyw welliannau yn hyfyw i’r dyfodol. Ni fydd unrhyw newid i bolisïau'r ysgolion perthnasol ar faterion cydraddoldeb.

Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol a’r nodweddion cydraddoldeb. Mae Estyn hefyd yn arolygu ysgolion ac yn asesu agweddau cydraddoldeb yn rhan o’i ganllawiau arferol.

## 6.14 Manteision tebygol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

| Amcan Craidd Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn | Manteision |
|---|---|
| Cael dechrau teg mewn bywyd | Gwell adnoddau a mwynderau, a pholisïau ar gyfer darpariaeth addysg feithrin a chyfnod sylfaen yn cael eu gweithredu I safonau’r unfed ganrif ar hugain. |
| Cael amrediad cynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu | Cyfleodd i rannu arbenigedd staff mewn meysydd penodol ar draws y sectorau dysgu, er mwyn sicrhau amrediad o gyfleoedd ynghyd a darparu manteision cwricwlaidd newydd. |
| Mwynhau’r iechyd gorau posib a pheidio â chael eu cam-drin, eu fictimeiddio na’u ddiarddel | Cynlluniau a pholisïau priodol i sicrhau cynnydd yn y materion hyn yn yr ysgol ddalgylch. |
| Cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden a gweithgareddau diwylliannol | Cyfleoedd i rannu arbenigedd yn y meysydd hyn ar draws y sector dysgu a hefyd i rannu adnoddau ac arferion da, gan wella mynediad y disgyblion i ddarpariaethau hamdden, chwaraeon a diwylliannol. |
| Cael eu clywed, eu trin â pharch a bod eu hil a’u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod | Byddai fforymau cynghorau ysgolion yn sicrhau bod lleisiau’r disgyblion yn cael eu clywed. |
| Bod ganddynt gartref diogel a chymuned sydd yn cefnogi lles corfforol ac emosiynol | Gellid datblygu timau rhyngasiantaethol o amgylch y plant i sicrhau cynnydd o ran gofal a chyfathrebu a drwy gydol cyfnod y plentyn yn yr ysgolion dalgylch. |
| Peidio â bod dan anfantais oherwydd tlodi | Byddai cyfle i ddatblygu cynlluniau amlasiantaethol er mwyn mynd i’r afael â thlodi plant. |

Trwy gynllunio gofalus gallai sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at yr un adnoddau a phrofiadau.

Gallai hyn fod yn ffordd lle gallai'r Cyngor gynnal gwasanaethau safonol mewn ardaloedd gwledig a lleihau’r nifer o leoedd gwag. Mae heriau’r elfen hon yn cynnwys rheoli llwyddiannus o ystod o gyfrifoldebau a sicrhau nad yw cyfrifoldebau o'r fath yn effeithio ar brif gyfrifoldeb y sefydliad, sef hyrwyddo addysg.

## 6.15 Trefniadau Mynediad Arfaethedig

Awdurdod Addysg Cyngor Gwynedd fyddai’r Awdurdod Mynediad, a byddai mynediad i’r ysgol yn unol â Pholisi Mynediad Ysgolion y Sir. Byddai’r Awdurdod yn rheoli derbyniadau i’r ysgol.

## 6.16 Gwybodaeth am Anghenion Dysgu Ychwanegol

Bydd yr adeilad newydd Y Garnedd yn sicrhau bod y cyfleusterau i gynnig darpariaeth arbenigol sy’n addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae cyfle trwy’r arian Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif i ddarparu gwell adnoddau i'r plant hynny sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn yr ardal trwy roi sylw briodol i’r:

Canolfan Adnoddau Iaith i ddisgyblion sydd ag anhwylderau iaith benodol a fyddai'n elwa o gefnogaeth ddwys am gyfnod byr. Y nod o gynnig y ddarpariaeth hon yw ceisio newid cadarnhaol hirdymor yn anhwylderau ieithyddol pobl ifanc, a thrwy hynny, sicrhau eu bod yn gallu llwyddo'n academaidd.

Canolfan Cyfathrebu Cymdeithasol ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol a diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistig, a fyddai'n elwa o gefnogaeth ddwys yn y system addysg prif ffrwd. Mae’r ddarpariaeth hon yw ceisio galluogi newid cadarnhaol hirdymor ym medrau cyfathrebu cymdeithasol pobl ifanc, a thrwy hynny sicrhau eu bod yn gallu llwyddo'n academaidd, yn gymdeithasol ac yn annibynnol.

## 6.17 Ôl ddefnydd y safleoedd

Pe gweithredir y cynnig byddai Ysgol Babanod Coedmawr ac Ysgol Glanadda yn peidio â pharhau i gynnig addysg. Mae gan y Cyngor bolisi ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion a byddai’r polisi yn cael ei ddilyn. Byddai angen i’r Cyngor drafod ac ystyried unrhyw dermau neu gyfyngiadau cyfreithiol rhwymol y gellid dod i rym pe bai unrhyw un o’r safleoedd yn peidio â bod yn safle ar gyfer darpariaeth addysg.

## 6.18 Risgiau Posibl

| Risg | Effaith bosibl | Camau i Liniaru’r Risg |
|---|---|---|
| Diffyg gwneud penderfyniadau | Anallu i roi newid ar waith oherwydd diffyg penderfyniadau sy'n cynyddu'r tebygolrwydd o aflonyddu addysg disgyblion. Gallai achosi niwed i enw da'r Cyngor | Amserlen gyda cherrig milltir clir sy'n nodi pan fo angen penderfyniadau allweddol gan yr Aelod Cabinet Addysg a’r Bwrdd Prosiect |
| Cludiant annigonol ar gyfer y trefniadau newydd | Plant yn methu cael mynediad i'r ddarpariaeth addysg newydd | Paratoi a chynllunio amserlen gyda cherrig milltir clir ar gyfer cynllunio a thendro cludiant ym mhell o flaen y diwrnod agor |
| Amharodrwydd lleol i gefnogi ysgol newydd | Gallai hyn leihau nifer y disgyblion a'r adnoddau ariannol sydd ar gael | Cynnal cyswllt cymunedol, gan eu hysbysu am ddatblygiadau a manteision adnoddau a gynhwysir yn y cynllun. |
| Ansawdd yr addysg yn y tymor byr tra bod ysgolion yn cael eu hadolygu | Gostwng ansawdd, a allai effeithio ar unrhyw sefydliadau addysgol newydd tra’u bod yn eu babandod | Monitro'r ysgolion yn unol â pholisi'r adran Addysg. Bydd unrhyw sefydliad addysgol newydd yn cael ei arolygu gan Estyn o fewn ei blwyddyn gyntaf. |
| Cwblhau prosiectau adeiladu yn hwyr | Oedi gweithredu, amhariad posibl ar addysg disgyblion a gofynion ariannu tymor byr ychwanegol | Monitro agos o brosiectau adeiladu gyda diweddariadau rheolaidd i'r bwrdd prosiect. |
| Gor-redeg mewn costau contract adeiladu | Angen am gyllid ychwanegol | Cynllunio manwl gyda chostau'r prosiect yn destun craffu cadarn ar bob cam a gwariant yn cael ei fonitro'n rheolaidd |

| | | |
|---|---|---|
| Materion Safle posib e.e. archeolegol neu amgylcheddol | Gallai oedi'r gwaith adeiladu | Safleoedd dan sylw yn safleoedd ysgolion presennol. Bydd y Contract angen i bob gwiriad angenrheidiol gael ei gwblhau cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. |
| Diogelwch Safle | Unrhyw gymhlethdodau neu faterion yn gallu achosi oedi | Bydd cynllun Iechyd a Diogelwch llawn yn cael ei baratoi gan y contractwr mewn ymgynghoriad â Swyddogion Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Bydd yn sicrhau gwahaniad llawn plant oddi wrth ardaloedd gweithio ar unrhyw safleoedd ysgolion presennol sy'n cael eu datblygu. Bydd swyddogion yn parhau i asesu iechyd a diogelwch wrth i'r datblygiad fynd yn ei flaen. |
| Hyfywedd ariannol tymor hir yr opsiwn | Ardal yn agored i niwed yn y dyfodol | Mae'r opsiwn a ffafrir yn lleihau costau rhedeg addysgol yn yr ardal ac yn lleihau'r amrywiaeth yn y gost fesul disgybl. |
| Cyngor Gwynedd neu Lywodraeth Cymru yn oedi ariannu | Gallai oedi sylweddol olygu terfynu'r prosiect | Cyfraniad Cyngor Gwynedd eisoes wedi ei gadarnhau gan y Cabinet. Creu achosion busnes cadarn a sicrhau trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru. |
| Y Cabinet ddim yn cymeradwyo'r cynnig | Gallai oedi sylweddol olygu terfynu'r prosiect | Sicrhau bod y Cabinet yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd |
| Y penderfyniad yn cael ei gyfeirio at y Gweinidog Addysg | Oedi i'r amserlen | Sicrhau bod adnoddau digonol ac arbenigedd ar gael pan fo angen. Diweddaru'r ymgynghorai allweddol wrth i'r prosiect ddatblygu gan gynnwys y posibilrwydd o gyfeirio at amserlen y prosiect. |
| Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gwrthod y cynnig (os yw'r cynnig yn cael ei gyfeirio) | Oedi sylweddol i'r amserlen sy'n golygu colli ffenestr gyllido ysgolion 21ain ganrif | Dylid sicrhau dewis yr opsiwn mwyaf buddiol yn ariannol, yn economaidd ac yn addysgol. |
| Materion Rheoli Prosiect | Gallai achosi oedi | Bydd y gwaith yn cael ei reoli ar y cyd gan swyddfa cleient a Rheolwr Prosiect, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Prosiect. Bydd swyddog cymorth cymunedol yn meithrin perthynas gyda'r cymunedau dan sylw ac yn eu hysbysu am ddatblygiadau. Bydd tîm prosiect yn darparu cefnogaeth weinyddol. |

## 6.19 Categori Cyfreithiol yn Ymwneud ar Cynnig

Wrth ddatblygu unrhyw gynnig, rhaid ystyried categori cyfreithiol.

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, diffinnir ysgolion fel rhai:

- Cymunedol
- Gwirfoddol a Reolir (VC) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)
- Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) gyda dynodiad crefyddol (Eglwys yng Nghymru)


Mae'r tabl isod yn dangos categorïau'r ysgol yn nalgylch Bangor:

| Categori | Cynradd (Medi 2017) | | Uwchradd (Medi 2017) | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer yr ysgolion** | **Nifer disgyblion** | **Nifer yr ysgolion** | **Nifer disgyblion** |
| Cymuned | 5 | 754 | 2 | 1,709 |
| Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir | 1 | 114 | 0 | 0 |
| Ysgolion Gwirfoddol dan Reolaeth | 3 | 544 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 9 | 1,422 | 2 | 1,709 |

Yn bresennol statws cymunedol sydd gan ysgolion Babanod Coedmawr, Glanadda ac Y Garnedd, ar sail hyn oll, cynigir, yn nhermau categori cyfreithiol, mai statws 'gymunedol' yw'r opsiwn ar gyfer yr ymgynghoriad statudol.

# 7. Crynodeb o'r Cynnig

Mae'r cynnig hwn yn golygu y bydd Ysgol Babanod Coedmawr a Glanadda yn cau a bod adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar gyfer ysgol y Garnedd.




# 8. Egluro'r Broses Statudol

Yn y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar y 17 Ionawr 2017, cymeradwywyd argymhelliad, "gofyn am yr hawl i gychwyn trafodaethau lleol yn unol â'r adroddiad ynglŷn ag adolygu darpariaeth addysg gynradd ym Mangor".

Cymeradwyodd y Cabinet yr argymhelliad i symud ymlaen i gyfnod o ymgynghori'n statudol ar yr opsiwn a ffafrir. Hon yw'r ddogfen ymgynghori sy'n cynnwys manylion y cynnig. Cyhoeddwyd y ddogfen hon ar y **10 Ebrill 2018** a gellir derbyn ymatebion tan **13:00 ar ddydd Mawrth 22 Mai, 2018. Ni fydd ymatebion hyn yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau, ond sylwadau.** Os oes unrhyw un yn dymuno gwrthwynebu, rhaid iddynt wneud hynny yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol (pe bai un yn cael ei gyhoeddi). Yn ystod yr ymgynghoriad hwn, gall yr ymatebion gynnwys sylwadau neu gwestiynau ar unrhyw agwedd o'r cynnig (ee y model, y safle dan sylw, y categori ayyb) neu awgrymu opsiynau eraill.
Yn dilyn cyfnod ymgynghori statudol hwn, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn Mehefin, 2018 lle byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud p'unai a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig hwn ai peidio. Bydd yr adroddiad ymgynghori hwn yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghorai ac yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r materion. Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y tair ysgol fod yr adroddiad ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad ymgynghori ar gael, e.e. yr Awdurdod Esgobaethol Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru, Cyngor Powys, Estyn, Gweinidogion Cymru, Aelodau Cynulliad perthnasol ac Aelodau Seneddol ayyb.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, bydd yn rhaid i'r cynnig gael ei gyhoeddi ar ffurf hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod ysgol a bydd "**cyfnod gwrthwynebu**" o 28 diwrnod o'r dyddiad pan gyhoeddir y cynnig. Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Caiff yr hysbysiad ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd a hefyd yn agos at y brif dderbynfa ym mhob un o'r 3 ysgol sy'n ymwneud â'r cynnig; bydd copïau yn cael eu hanfon at yr ysgolion i'w dosbarthu i

ddisgyblion, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr. Bydd copïau caled ar gael ar gais gan y swyddfa moderneiddio addysg.

Ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau mewn "adroddiad gwrthwynebiadau". Bydd yr adroddiad gwrthwynebiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a bydd copïau caled ar gael ar gais. Rhoddir gwybod hefyd i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y 3 ysgol gyfan fod yr adroddiad gwrthwynebiad ar gael. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn cael gwybod bod yr adroddiad gwrthwynebiad ar gael.

Bydd Cabinet y Cyngor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar yr adroddiad gwrthwynebiad o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Pan fydd y Cabinet wedi cyrraedd ei benderfyniad terfynol, bydd y penderfyniad yn cael ei roi’n ysgrifenedig, ynghyd â rhesymau penodol dros y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, staff a llywodraethwyr y tair ysgol yn cael gwybod am y penderfyniad. Bydd nifer o gynrychiolwyr o asiantaethau eraill hefyd yn cael eu hysbysu am y penderfyniad.

Mewn rhai achosion - yn dilyn penderfyniad terfynol y Cabinet - mae'n bosibl i'r cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru i'w hystyried:

- Awdurdod Lleol arall a effeithir gan y cynnig
- Corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol a effeithir arni
- Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun i’r cynigion
- Unrhyw Ymddiriedolaeth sy'n dal tir ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun cynnig
- Sefydliad addysg bellach yr effeithir arno gan y cynigion

Mae angen i'r cyrff sy'n cyfeirio'r cynnig nodi'r rheswm pam maen nhw o'r farn bod y penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod Lleol yn anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw'r cynigion yn effeithio ar y cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynigion.

## 9. Amserlen Arfaethedig

| Dyddiad | Cam |
|---|---|
| **13 Mawrth 2018** | **Adroddiad y Cabinet:** yn gofyn am ganiatâd i gynnal ymgynghoriad statudol |
| **10 Ebrill 2018** | **Cychwyn cyfnod ymgynghori statudol:** O leiaf 42 diwrnod i'r ymgynghorai ymateb, o leiaf 20 diwrnod o'r dyddiau hynny yn ddyddiau ysgol. |
| **22 Mai 2018** | **Dyddiad cau'r ymgynghoriad statudol:** Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig |
| **Mehefin 2018** | **Cabinet:** Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, bydd adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet. Bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen a'r cynnig ai peidio. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan y Cyngor |
| **Mehefin 2018** | **Cyhoeddi rhybudd statudol:** Os bydd y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen a'r cynnig, cyhoeddir hysbysiad statudol ac fe gynhelir cyfnod gwrthwynebu. Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad o fewn y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod |
| **Medi 2018** | **Y Cabinet:** Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu, bydd y Cabinet yn trafod yr adroddiad gwrthwynebiadau a phenderfynu a ddylid cadarnhau'r cynnig ai peidio. |
| **Medi 2018** | **Cyfeirio'r penderfyniad i Weinidogion Cymru:** Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, mae'r cynnig gan y cyrff canlynol yr hawl i gyfeirio penderfyniad yr Awdurdod i Weinidogion Cymru i'w benderfynu:<br>i. Awdurdod Lleol arall a effeithir gan y cynnig<br>ii. Corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol a effeithir arni<br>iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun i'r cynigion<br>iv. Unrhyw Ymddiriedolaeth sy'n dal tir ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig sy'n destun cynnig<br>v. Sefydliad addysg bellach yr effeithir arno gan y cynigion |